wavehill

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

# Canllawiau a Chod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb: Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad

Tachwedd 2021

Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Awduron yr adroddiad:

Llorenc O'Prey, Alys Samuel-Thomas, Tony Jones a Cherry Davidson

Tachwedd 2021

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2-4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, London, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711
E-bost: wavehill@wavehill.com
Twitter: @wavehilltweets
Gwefan: www.wavehill.com

Dylai unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r adroddiad hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Llorenc O'Prey (llorenc.oprey@wavehill.com)

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ........ 2
1 Cyflwyniad ........ 6
2 Myfyrdodau Cyffredinol ........ 10
3 Barn Ynglŷn â'r Canllawiau ........ 20
4 Barn Ynglŷn â'r Cod ........ 30
5 Yr Iaith Gymraeg ........ 39
6 Casgliadau ........ 42

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a oedd ar agor rhwng mis Mai a mis Mehefin 2021. Mae'n cyflwyno crynodeb o farn a chanfyddiadau ymatebwyr ynglŷn â'r Canllawiau a'r Cod drafft.

## Ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 866 o ymatebion i'r ymgynghoriad oddi wrth amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau. Roedd y rhain yn cynnwys plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, yn ogystal ag ymarferwyr. Yn ychwanegol, cyfrannodd 41 o bobl eu barn mewn gweithdai. Derbyniodd yr ymgynghoriad 144 o ymatebion safonol a oedd ag elfennau tebyg i gyflwyniadau eraill.

O ystyried y gyfradd uchel o hunanddewis wrth ymateb i'r ymgynghoriad, dylid ystyried bod y dadansoddiad yn dangos rhywfaint o'r safbwyntiau a'r canfyddiadau sydd gan y cyhoedd ynglŷn â'r Canllawiau, yn hytrach na'i fod yn rhoi cyfrif pendant o farn pobl a chymunedau ledled Cymru.

## Canfyddiadau Allweddol

Ar draws yr ymatebion, mewn cyflwyniadau ffurfiol a thrwy weithdai, mynegodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o farn a safbwyntiau. Roedd hyn yn cynnwys barn ynglŷn â'r Canllawiau a'r Cod eu hunain, yn ogystal â myfyrdodau cyffredinol gan gynnwys rôl a photensial Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm.

### Myfyrdodau Cyffredinol

Roedd safbwyntiau cadarnhaol ynglŷn ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn aml yn cael eu llywio gan y ddealltwriaeth y byddai darpariaeth sy'n ddatblygiadol briodol yn helpu a hybu llesiant y dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys eu llesiant cymdeithasol, emosiynol a chorfforol, yn ogystal â datblygu amgylchedd i blant a phobl ifanc sy'n fwy goddefgar a mwy parod i dderbyn. Croesawodd yr ymatebwyr hefyd y pwyslais mwy ar hawliau'r plentyn yn y cynigion.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr, ac ymarferwyr yn benodol, at amrywiaeth o ystyriaethau a heriau ymarferol ynglŷn ag ymgysylltu'n effeithiol â'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd. Roedd hyn yn cynnwys pwysigrwydd sgiliau, arbenigedd a hyder ymarferwyr er mwyn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel sy'n ddatblygiadol briodol. Er mwyn cynorthwyo ymarferwyr, roedd hyfforddiant, canllawiau a deunyddiau o ansawdd uchel yn cael eu hystyried yn hanfodol.

Roedd safbwyntiau negyddol yn tueddu i bwysleisio pwysigrwydd llesiant y dysgwyr, ond roeddynt yn teimlo bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn amhriodol ac yn debygol o waethygu yn hytrach na mynd i'r afael â rhai o'r heriau y mae dysgwyr yn eu hwynebu. Roedd pryderon hefyd bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cyfyngu ar ryddid mynegiant crefyddol a hawliau rhieni, ac yn cwtogi ar hawliau rhai grwpiau, yn arbennig menywod a merched. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn bod cynnwys rhywioldeb a rhywedd yn broblematig am amryw resymau.

## Barn Ynglŷn â'r Canllawiau

Roedd y safbwyntiau'n amrywio ynglŷn â pha mor glir a gwerthfawr oedd y diffiniad cyffredinol o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y Canllawiau. Roedd rhai o'r farn ei fod yn glir a gwerthfawr, ac roedd eraill yn teimlo y byddai mwy o fanylder a bod yn fwy penodol yn ddefnyddiol, yn arbennig er mwyn deall beth mae'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd yn ei olygu yn ymarferol. Roedd hyn yn cynnwys mwy o fanwl gywirdeb ynghylch terminoleg, ynghyd â chyfeirio'n fwy penodol at themâu neu faterion penodol yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylid eu cynnwys yn y dysgu a'r addysgu.

Roedd cytundeb cyffredinol â'r egwyddorion sydd wedi'u hamlinellu yn y Canllawiau, yn arbennig ymysg ymarferwyr ac uwch arweinwyr. Roedd hyn yn cynnwys y ffocws ar lesiant a diogelwch, y dull yn seiliedig ar hawliau a thegwch, y dull ysgol gyfan, a'r gofynion am ddysgu proffesiynol, ymysg agweddau eraill. Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo y byddai mwy o fanylion unwaith eto yn ddefnyddiol, gan gynnwys rhai egwyddorion penodol megis cynnwys rhieni a gofalwyr yn nyluniad y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a chyfeirio'n fwy eglur at bynciau penodol, megis Trais yn Erbyn Menywod.

Roedd rhai ymatebwyr, yn enwedig rhai ymarferwyr ac uwch arweinwyr, o'r farn bod y Canllawiau'n glir a hygyrch. Roedd eraill, fodd bynnag yn teimlo y gallai'r Canllawiau gyfeirio'n gliriach at ddisgwyliadau penodol ar leoliadau, ysgolion a chyrff llywodraethu. Roedd diogelu hefyd yn thema gyson, a theimlodd ymatebwyr y byddai canllawiau mwy penodol yn werthfawr. Roedd y cynnwys a'r dull gweithredu yn elfennau eraill y teimlodd yr ymatebwyr lle gellid rhoi mwy o fanylder. Roedd safbwyntiau mwy negyddol yn tueddu i fod â phryderon ynglŷn â therminoleg neu gysyniadau penodol, megis rhywioldeb a rhywedd, yr oeddent naill ai'n teimlo nad oeddent yn ddigon penodol neu eu bod yn amhriodol.

## Barn Ynglŷn â'r Cod

Fel yn achos y Canllawiau, roedd gan yr ymatebwyr safbwyntiau amrywiol ynglŷn â pha mor glir ac effeithiol oedd y Cod yn cyfathrebu elfennau gorfodol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Roedd rhai'n teimlo ei fod yn glir a gwerthfawr, ond roedd llawer yn teimlo y byddai mwy o fanylion yn bwysig i helpu lleoliadau ac ysgolion. Byddai hyn o gymorth i ddehongli'r Cod yn fwy manwl gywir, a helpu ymarferwyr i ymwneud â'r cwricwlwm yn fwy effeithiol, yn arbennig mewn perthynas â darpariaeth sy'n ddatblygiadol briodol. Roedd teimlad hefyd y byddai mwy o ddyfnder a manwl gywirdeb yn werthfawr wrth ymgysylltu â rhieni a gofalwyr er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon, ac er mwyn cynnal ymddiriedaeth.

O ran yr hyn oedd ar goll o'r Cod, cynigiodd yr ymatebwyr gyfres o wahanol awgrymiadau, gan gynnwys pynciau penodol yr oeddent yn teimlo eu bod yn werthfawr i ddysgwyr ymwneud â hwy. Ar y cyd, roeddent yn teimlo y byddai cyfeiriadau mwy penodol at y pynciau hyn yn sicrhau eu bod yn cael sylw yn yr ystafell ddosbarth. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys rhagfarn ar sail rhyw ac aflonyddu rhywiol, pwysigrwydd cefnogaeth gan gyfoedion, hybu diogelwch ar-lein, a phwysigrwydd priodas a theulu, ymysg themâu eraill. Yn gyffredinol, er mwyn i'r Cod fod yn fwy effeithiol, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen iddo cynnwys lefel uwch o fanylder na'r hyn a ddarparwyd yn y drafft.

### Yr Iaith Gymraeg

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn i'r ymatebwyr am eu barn am y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'i effaith ar y Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Denodd hyn ymatebion cymysg. Roedd rhai'n teimlo ei fod yn atgyfnerthu pwysigrwydd darpariaeth ddwyieithog neu gyfrwng Cymraeg, a bod iddo effeithiau cadarnhaol. Roedd eraill, fodd bynnag, yn teimlo y byddai'n effeithio'n negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg. Roedd y safbwyntiau hyn hefyd yn tueddu i leisio gwrthwynebiad cyffredinol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gan deimlo y gallai danseilio hyder mewn addysg yn fwy cyffredinol. Yn fwy cyffredinol, pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd mynediad i adnoddau cyfrwng Cymraeg a chymorth i ymgysylltu'n effeithiol ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

## Casgliadau

Yn gyffredinol, roedd y Canllawiau a'r Cod yn cael eu hystyried yn werthfawr. Fodd bynnag, roedd lefel uwch o fanylder yn cael ei ystyried yn bwysig i sicrhau bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei hymwreiddio'n effeithiol mewn lleoliadau ac ysgolion ledled Cymru. Roedd cyfres o bryderon yn sail i'r safbwyntiau hyn, gan gynnwys o ran cynorthwyo ymarferwyr i sicrhau darpariaeth sydd bob amser yn ddatblygiadol briodol, ac o ran cynnal ymddiriedaeth a chefnogaeth rhieni a gofalwyr.

Roedd gwrthwynebiadau i ddull gweithredu cyffredinol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i'w gweld ymhlith yr ymatebion. Roedd llawer o'r ymatebion wedi'u llywio'n amlwg ac yn ddealledig gan safbwyntiau a priori, moesol neu grefyddol ehangach a dwfn, neu bryderon penodol ynghylch lles. Roedd y rhain yn aml yn deillio o ddehongliad a chanfyddiad yr ymatebwyr o gynnwys ac amcanion cyffredinol cwricwlwm newydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Roedd rhai safbwyntiau negyddol yn seiliedig ar gamddealltwriaeth o gynnwys ac amcanion y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn perthynas â'r elfennau penodol fyddai'n cael eu trafod gyda dysgwyr iau.

Ar draws yr holl ymatebion, roedd yn amlwg bod llesiant y dysgwyr yn bwysig. Roedd y safbwyntiau cadarnhaol a negyddol ar y cwricwlwm newydd yn dymuno hybu a diogelu llesiant dysgwyr. Gallai cynnwys mwy o fanylder a dyfnder yn y Canllawiau a'r Cod helpu i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr.

## Llywio drwy'r Ddogfen Hon

Er mwyn cyfathrebu canfyddiadau'r dadansoddiad, mae'r adroddiad hwn yn dilyn strwythur cyffredinol y ddogfen ymgynghori ei hun. Yn gyntaf, mae'r adroddiad yn cyfathrebu rhai o'r themâu trosfwaol a fynegwyd gan yr ymatebwyr, cyn archwilio'r farn ynglŷn â'r Canllawiau a'r Cod yn fanylach. Caiff crynodeb cyffredinol, trosfwaol ei ddarparu yn y Casgliadau.

# 1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a oedd ar agor rhwng mis Mai a mis Mehefin 2021. Mae'n cyflwyno crynodeb o farn a chanfyddiadau ymatebwyr ynglŷn â Chanllawiau a Chod drafft Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

## Cefndir

Mae Canllawiau a Chod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhan o newidiadau ehangach i addysg yng Nghymru. Datblygwyd y Cwricwlwm i Gymru mewn ymateb i adolygiad cynhwysfawr o drefniadau cwricwlwm ac asesu. Wedi'i lywio gan farn a dyheadau pobl o bob rhan o Gymru, mae'r cwricwlwm newydd yn cyflwyno gweledigaeth o'r dyfodol ar gyfer addysg. Datblygwyd y cwricwlwm newydd mewn partneriaeth â rhwydwaith o ymarferwyr ac ysgolion, ynghyd ag unigolion a sefydliadau ehangach sy'n cynorthwyo'r gymuned addysg.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn elfen bwysig o'r cwricwlwm newydd. Mae hybu a sicrhau llesiant pob dysgwr yn greiddiol i'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ansawdd uchel sy'n ddatblygiadol briodol yn helpu i greu cymunedau ysgol diogel a grymusol lle gall dysgwyr dyfu, dysgu a datblygu cydberthnasau cadarnhaol ac iach am oes. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cynnwys dysgu am y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hyn:

- Gwahanol fathau o gydberthnasau, megis rhai teuluol, rhai nad ydynt yn rhywiol, a rhai rhywiol;
- Gweithrediadau sy'n newid yn y corff dynol a sut mae'n dylanwadu ar ymddygiad a chydberthnasau;
- Dylanwadau cymdeithasol a diwylliannol ar gynrychioliadau o'r corff a chydberthnasau;
- Iechyd a llesiant corfforol, meddwl ac emosiynol.

O dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn orfodol i ddysgwyr 3 i 16 oed mewn meithrinfeydd, lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgol canol, ysgolion uwchradd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Ni fydd gan rieni'r hawl mwyach i dynnu dysgwyr allan o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Er mwyn cynorthwyo ymarferwyr i gynllunio, dylunio ac ymgorffori'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd yn eu hysgolion, datblygwyd Canllawiau a Chod drafft. Drwy broses o gyd-adeiladu, derbyniodd yr ymarferwyr gymorth agos gan addysgwyr, arbenigwyr a rhanddeiliaid eraill i ddrafftio'r Canllawiau a'r Cod. Y nod oedd darparu adnodd gwerthfawr i ymarferwyr i'w helpu i gynllunio eu darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr ystafell ddosbarth ac ar draws yr ysgol.


Roedd Llywodraeth Cymru’n awyddus i archwilio barn a safbwyntiau’r gymuned addysg ynglŷn â Chanllawiau a Chod drafft Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Gwahoddwyd y rhai sydd â diddordeb mewn addysg, gan gynnwys rhieni, ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion, ynghyd â rhanddeiliaid ehangach, i gyfrannu eu barn rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2021. Derbyniwyd ymatebion ar-lein, drwy e-bost, drwy’r post, ac wyneb yn wyneb mewn gweithdai.

Mae’r adborth a ddarparwyd gan yr ymatebwyr yn rhan o’r broses o gyd-adeiladu. Mae’r farn a’r safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr wedi’u bwydo’n ôl i mewn er mwyn mireinio’r Canllawiau a’r Cod ac wedi’u hystyried gan ymarferwyr sy’n ymwneud â’u datblygu. Ar ôl eu mireinio, bydd y Canllawiau a’r Cod (yn amodol ar weithdrefnau’r Senedd) yn rhan o ddiweddariad i Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar ddiwedd 2021.

## Ymgysylltiad â’r Ymgynghoriad

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i gyfrannu eu barn ar y Canllawiau a’r Cod ar-lein, drwy e-bost, drwy’r post, ac wyneb yn wyneb mewn gweithdai. Derbyniwyd cyfanswm o 866 o ymatebion oddi wrth amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau. Roedd hyn yn cynnwys rhieni a gofalwyr, aelodau o’r cyhoedd ac ymarferwyr:

Ffigur 1: Ymgysylltiad â'r Ymgynghoriad:



Cyfrannodd amrywiaeth o sefydliadau eu barn ynglŷn â'r Canllawiau. Roedd hyn yn cynnwys cyrff cyhoeddus, yn ogystal â grwpiau buddiant sydd â barn ynglŷn â'r Canllawiau.

Yn ychwanegol, cyfrannodd 41 o bobl eu barn mewn gweithdai. Roedd hyn yn cynnwys uwch arweinwyr ac ymarferwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd o bob rhan o Gymru, yn ogystal â rhieni a rhieni lywodraethwyr. Roedd y gweithdai'n canolbwyntio ar archwilio barn a disgwyliadau'r cyfranogwyr ymhellach ynglŷn â'r Canllawiau a'r Cod.

## Ymatebion Ymgyrch

Derbyniodd yr ymgynghoriad 144 o ymatebion a oedd ag elfennau tebyg i gyflwyniadau eraill. Gan ddefnyddio dadansoddiad sensitifrwydd, roedd mwy nag 80% o gynnwys yr ymatebion hyn yn unfath â chynnwys cyflwyniadau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion a oedd yn cyfeirio at sefydliadau neu grwpiau buddiant penodol, yn ogystal ag unigolion a oedd wedi cyflwyno mwy gan un ymateb unfath. Roedd yr ymatebion hyn yn tueddu i gyfeirio at bryderon ehangach ynglŷn â dull gweithredu cyffredinol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a gyflwynwyd yn y Canllawiau.

## Natur Gynrychioliadol yr Ymatebion

Er mwyn deall y cydbwysedd barn, mae tystiolaeth empirig gref i awgrymu **nad yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad o anghenraid yn gynrychioliadol** o farn a safbwyntiau'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Mae'r gyfradd uchel o ymatebion ymgyrch yn awgrymu y gallai trafodaethau fod wedi'u cydlynu ynglŷn â'r ymgynghoriad, a bod rhai ymatebwyr wedi'u hannog i gyflwyno testun parod. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebion hyn yn mynegi pryderon ynglŷn â'r dull gweithredu. Un o oblygiadau hunanddewis a chydlynu ymatebion yw bod mwy o safbwyntiau beirniadol wrth ystyried y cydbwysedd barn ar draws yr ymatebion.

Roedd gwahaniaethau hefyd yn y teimladau cyffredinol a fynegwyd gan ymatebwyr ar draws y gwahanol ddulliau ymgysylltu. Roedd yn amlwg bod y cydbwysedd barn yn wahanol wrth gymharu'r ymatebion ar-lein a'r ymatebion mewn gweithdai. Roedd mwyafrif y rhieni a'r gofalwyr mewn gweithdai, a recriwtiwyd o amryw ysgolion a lleoliadau, yn credu bod y dull gweithredu mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn berthnasol a phwysig, ac yn cefnogi'r dull gweithredu cyffredinol. Ar y llaw arall, roedd mwyafrif y rhieni a'r gofalwyr mewn ymatebion ar-lein yn nodi eu bod yn gwrthwynebu'r dull gweithredu cyffredinol. Awgryma hyn y gallai fod gwahaniaethau yn y ffordd benodol y mae'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a'r boblogaeth gyffredinol o rieni a gofalwyr ledled Cymru yn dehongli Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'u canfyddiad ohoni.

Ymhellach, roedd gwahaniaethau hanfodol mewn safbwyntiau rhwng grwpiau gwahanol o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar-lein. Roedd y rhai a ymatebodd fel ymarferwyr ac uwch arweinwyr, er enghraifft, yn tueddu i gefnogi'r dull gweithredu, ac roedd llawer ohonynt yn mynegi ystyriaethau ymarferol ehangach neu'n galw am fwy o fanylion. Mae hyn yn cyferbynnu â llawer o rieni a gofalwyr na wnaeth drafod y Canllawiau na'r Cod eu hunain, ond a oedd yn cynnig gwrthwynebiadau ehangach.

## Dulliau Dadansoddi

Er mwyn deall y materion a'r themâu a godwyd gan yr ymatebwyr, comisiynodd Llywodraeth Cymru sefydliad ymchwil annibynnol Wavehill i ddadansoddi'r ymatebion. Bwriad y dadansoddiad oedd deall a mapio'r amrywiaeth o farn a safbwyntiau sydd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â'r Canllawiau a'r Cod.

Er mwyn dadansoddi'r safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr, cynhaliodd awduron yr adroddiad hwn ddadansoddiad thematig manwl. Mae'r dull hwn yn mynd ati'n systematig i archwilio pob ymateb a nodi'r themâu a'r materion sy'n cael eu codi. O'r dadansoddiad hwn, gall y tîm wedyn archwilio pa mor gyffredin yw barn a safbwyntiau penodol.

## Cyfyngiadau

Mae yno nifer o gyfyngiadau mewn perthynas â'r dadansoddiad hwn sy'n bwysig i'w nodi. Nid yw'r ymatebwyr a fu'n ddigon caredig i gyfrannu eu barn a'u safbwyntiau o anghenraid yn gynrychioliadol o farn a safbwyntiau'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Mae'r tebygolrwydd uchel o hunan-ddewis yn cynyddu'r posibilrwydd bod gan y rhai a ymatebodd farn a safbwyntiau sy'n wahanol yn ansoddol i farn a safbwyntiau sydd i'w canfod ymysg pobl a chymunedau ledled Cymru yn fwy cyffredinol.

Rhaid i'r dehongliad o'r cydbwysedd barn gael ei ystyried hefyd yng nghyd-destun y cwestiynau a ofynnwyd, am na wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn, ac ni wnaeth pob ymatebydd ddarparu digon o wybodaeth i ymhelaethu ar eu barn yn gywir. Yn hyn o beth, mae'r termau ansoddol yn dangos barn sy'n berthnasol i gwestiynau yn seiliedig ar y rhai a ymatebodd yn unig. Ni ddylid tybio felly eu bod yn cyfeirio'n ôl yn rhifiadol at gyfanswm nifer y bobl a'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad, nac i'r gymuned addysg.

**Gyda'i gilydd, felly, dylid ystyried bod y dadansoddiad hwn yn dangos rhywfaint o'r farn a'r safbwyntiau sydd gan bobl a chymunedau ynglŷn â'r Canllawiau, yn hytrach na'i fod yn rhoi cyfrif pendant o farn pobl a chymunedau ledled Cymru.**

Trown yn awr i amlinellu'r themâu penodol a godwyd ar draws yr ymatebion yn erbyn y meysydd polisi penodol a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

# 2 Myfyrdodau Cyffredinol

Ar draws yr ymatebion, mewn cyflwyniadau ffurfiol a thrwy weithdai, mynegodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o farn a safbwyntiau. Roedd hyn yn cynnwys barn ynglŷn â'r Canllawiau a'r Cod eu hunain, sef prif ffocws yr ymgynghoriad. Yn ogystal â'r adborth hwn, mynegodd yr ymatebwyr hefyd fyfyrdodau cyffredinol ehangach, megis rôl a photensial Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm, a'r heriau ymarferol wrth ei hymwreiddio yn y dysgu a'r addysgu.

## Cefnogaeth i'r Dull Gweithredu

Roedd yr ymatebwyr, ac ymarferwyr a chyrff cyhoeddus eraill yn benodol, yn croesawu'r ymagwedd gyffredinol at Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sydd wedi'i hamlinellu yn y Canllawiau a'r Cod. Yn y gweithdai, roedd y rhieni a'r gofalwyr ar y cyfan yn gadarnhaol ynglŷn â'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd.

### Llesiant Plant a Phobl Ifanc

Roedd safbwyntiau cadarnhaol ynglŷn ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn aml yn cael eu llywio gan y ddealltwriaeth y byddai darpariaeth sy'n ddatblygiadol briodol yn helpu a hybu llesiant y dysgwyr. O'r safbwyntiau hyn, mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder i archwilio eu bydoedd cymdeithasol yn ddiogel a hyderus, a diogelu eu llesiant emosiynol a chorfforol.

> *Mae'r ddogfen yn disgrifio cwmpas Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a'i phwysigrwydd er mwyn datblygu cydberthnasau iach a chadarnhaol. O'r disgrifiad, mae'n glir bod angen i rywioldeb gael ei ymgorffori mewn addysg cydberthynas a bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn fwy nag Addysg Rhyw, ei bod yn ymwneud â helpu pobl ifanc i dyfu a datblygu i fod yn ddinasyddion cytbwys sy'n deall a pharchu amrywiaeth rywiol yn ogystal â chael gwybodaeth wrthrychol, ffeithiol, am dyfu i fyny, sut mae cyrff yn newid, ac atgenhedlu rhywiol. Mae'r disgrifiad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn glir ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes.*

Awdurdod Lleol

Mewn gweithdy, disgrifiodd rhiant fod eu plentyn wedi bod yn dyst i drais domestig ar yr aelwyd. Roeddent yn dymuno i'w plant dyfu fyny â dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gydberthnasau parchus, ac nad oedd unrhyw fath o gam-drin yn dderbyniol mewn perthynas. O'u safbwynt hwy, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb oedd yr elfen unigol bwysicaf o'r cwricwlwm newydd.

Roedd safbwyntiau mwy cadarnhaol hefyd yn aml yn seiliedig ar bryderon ynglŷn â'r wybodaeth a'r syniadau a ddaw i sylw plant a phobl ifanc y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac i ffwrdd o'r teulu. O'r safbwyntiau hyn, teimlodd yr ymatebwyr fod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn bwysig i ddarparu gwybodaeth gytbwys a diduedd a all ddiogelu a grymuso plant a phobl ifanc:

> *Mae'n gyffredin iawn i bobl ifanc weld delweddau amhriodol y dyddiau yma, gan gynnwys ar eu ffonau. Mae'n peri cryn bryder, â dweud y gwir. Mae hyn yn dylanwadu ar sut maent yn ymddwyn hefyd, ac mae gwir angen i ni fynd ati'n gynnar a dweud nad yw rhai pethau penodol yn briodol cyn iddynt wneud niwed i'w hunain neu i rywun arall. Mae gwir angen iddynt wybod sut beth yw parch a bod yno ffiniau.*

Rhiant a Gofalwr

Safbwynt arall oedd y potensial sydd i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gynorthwyo datblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol pob plentyn a pherson ifanc. O'r safbwyntiau hyn, nid mater o gyfathrebu gwybodaeth yn unig yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ond datblygu amgylchedd i blant a phobl ifanc sy'n fwy goddefgar a mwy parod i dderbyn.

Roedd amrywiaeth o randdeiliaid yn cydnabod yr effeithiau cadarnhaol posibl ar lesiant dysgwyr o ganlyniad i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n ddatblygiadol briodol, gan gynnwys rhai sy'n gweithio yn sector y blynyddoedd cynnar:

> *[Rydym yn] croesawu'r ffaith bod pwysigrwydd addysg yn sector y blynyddoedd cynnar yn cael ei gydnabod yn y cwricwlwm newydd, drwy ddefnyddio continwwm dysgu sy'n cychwyn yn 3 oed. Y ddogfen Ganllawiau hon yw'r tro cyntaf iddi fod yn statudol ofynnol i rai sy'n ymwneud ag addysg plant 3-4 oed yn y sector nas cynhelir ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i'w dysgwyr. Mae i natur gynhwysol y mudiad hwn o addysg yng Nghymru y cyfle i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni'i botensial llawn yn ogystal â chynorthwyo agenda Addysg a Gofal yn ystod Plentyndod Cynnar Llywodraeth Cymru.*

Corff Proffesiynol

## Hawliau'r Plentyn

Yn ogystal â hybu llesiant, tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd grymuso plant a phobl ifanc. O'r safbwyntiau hyn, croesawodd yr ymatebwyr y pwyslais mwy ar hawliau'r plentyn yn y cynigion. Roedd hyn yn cynnwys cyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn natblygiad y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

> *Cytunaf - hoffi'r defnydd o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.*

Rhiant neu ofalwr

*Mae sicrhau hawliau i ddysgu am gydberthnasau a rhywioldeb yn gam hanfodol i gychwyn ar broses mawr ei hangen yng Nghymru sy'n sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn cyfleoedd o ansawdd uchel i ddatblygu eu dealltwriaeth o gydberthnasau a rhywioldeb.*

Y Comisiynydd Plant

*Ar y cychwyn, mae'n bwysig pwysleisio eto ein cefnogaeth lawn i'r nodau o gyflwyno cwricwlwm newydd, gorfodol, ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sydd ag egwyddorion hawliau, tegwch a chynwysoldeb yn greiddiol iddo.*

Sefydliad y Sector Gwirfoddol

### Yr Arfer Sefydledig

Mewn sgyrsiau mwy agored ag ymarferwyr mewn gweithdai, nododd sawl ymatebydd fod y cwricwlwm newydd yn gyffredinol yn adlewyrchu'r dysgu ac addysgu presennol yn eu hysgol. O'r safbwyntiau hyn, roedd elfennau megis pwysigrwydd cyfeillgarwch a chydberthnasau iach, a'r ffocws arnynt, eisoes yn elfennau sefydledig o'r dysgu ac addysgu. Roeddent hefyd yn teimlo bod natur gyffredinol y cwricwlwm newydd, gan gynnwys parch a chydnabyddiaeth, eisoes yn cael eu hadlewyrchu yn ethos cyffredinol ysgol. I'r ymarferwyr hyn, roedd y cwricwlwm newydd yn adlewyrchu esblygiad yn y dysgu a'r addysgu yn hytrach na newid cyfan gwbl yn y dull gweithredu. Roedd rhai hefyd o'r farn bod y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cynnig dilysrwydd pwysig i'r dull gweithredu y maent wedi bod yn ei ddefnyddio yn eu hysgol.

### Dull Gweithredu Cyffredinol y Cwricwlwm Newydd

Yn fwy cyffredinol, mynegodd yr ymatebwyr hefyd gefnogaeth i'r dull gweithredu sydd wedi'i fabwysiadu yn y Cwricwlwm i Gymru yn ei gyfanrwydd. Roedd hyn yn cynnwys elfennau megis rôl fwy i ymarferwyr wrth ddylunio'r cwricwlwm, a'r ffocws mwy ar lesiant dysgwyr. O'r safbwyntiau hyn, croesawodd yr ymatebwyr y rhyddid a'r hyblygrwydd a amlinellwyd yn y Canllawiau i deilwra'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb at anghenion eu hysgol, eu cymuned a grŵp neu garfan penodol.

## Heriau Ymarferol

Wrth feddwl am y cwricwlwm newydd yn ymarferol, cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at amrywiaeth o ystyriaethau a heriau ymarferol i ymgysylltu'n effeithiol â'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd. Mae'r themâu a'r materion hyn yn rhannol yn mynd y tu hwnt i'r Canllawiau a'r Cod eu hunain i archwilio sut beth fyddai'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ran dysgu ac addysgu.

## Sgiliau, Arbenigedd a Hyder Ymarferwyr

Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd sgiliau, arbenigedd a hyder ymarferwyr wrth gynnig darpariaeth o ansawdd uchel sy’n ddatblygiadol briodol. Roedd rhai’n ystyried y byddai’r pwysau cynyddol ar ddysgu trawsgwricwlaidd a dull ysgol gyfan yn galw am ledaenu cyfrifoldeb am gyflawni Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar draws mwy o staff oddi mewn i leoliad neu ysgol. Nododd rhai uwch arweinwyr, er enghraifft, eu bod yn teimlo y byddai hyn yn rhoi rhai aelodau staff mewn sefyllfa lle nad ydynt yn gyfforddus neu’n hyderus, gan gynnwys trafod materion sensitif neu ymateb i gwestiynau gan ddysgwyr.

> *Mae rhai o fy nghydweithwyr yn betrusgar ynglŷn ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae rhai wedi edrych arno a theimlo y gallai godi cwestiynau* [gan ddysgwyr] *nad ydynt yn gyfforddus i’w hateb. Mae’n fater o’u bod eisiau ei wneud yn gywir, ac nad ydynt yn gyfarwydd â’r pwnc na sut i fynd i’r afael ag ef. Bydd eu cynorthwyo yn allweddol.*

Uwch Arweinydd, Ysgol Uwchradd

> *Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn bwnc cymhleth ac eang. Mae’n faes arbenigol o’r cwricwlwm sy’n canolbwyntio ar faterion a all fod yn sensitif ac a all achosi i athrawon, disgyblion a rhieni deimlo embaras, a theimlo’n bryderus a bregus. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ansawdd uchel yn ddibynnol ar gael gweithlu wedi’i hyfforddi’n dda sydd â’r hyder i gyd-adeiladu cynnwys perthnasol gyda phlant a phobl ifanc. Ond mae gwaith ymchwil yn awgrymu nad yw llawer o athrawon wedi derbyn hyfforddiant digonol i deimlo eu bod wedi’u paratoi a bod ganddynt a’r hyder i gynnal gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae hyn yn dangos mor hanfodol yw i ysgolion gael Canllawiau manwl a chlir iawn ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y gallant droi atynt i’w helpu i gynllunio eu cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ymarferol, ac sy’n rhoi’r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i deimlo’n hyderus i addysgu’r pwnc cymhleth hwn.*

Sefydliad y Sector Gwirfoddol

## Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Er mwyn adeiladu sgiliau a hyder, teimlodd yr ymatebwyr fod hyfforddiant o ansawdd uchel yn hanfodol. Ystyriwyd bod hyn yn werthfawr yn benodol i ymarferwyr newydd gymhwyso, neu rai y mae addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn beth newydd iddynt. O’r safbwyntiau hyn, roedd hyfforddiant yn werthfawr i helpu ymarferwyr i fynd i’r afael â’r themâu a’r materion sy’n cael eu trafod mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ffordd sensitif ac effeithiol, a gwahaniaethu rhwng darpariaeth sy’n ddatblygiadol briodol.

> *Bydd hyfforddiant yn adeiladu hyder ym mhob agwedd ar Addysg Gydberthynas a Rhywioldeb ac mae’n hanfodol i helpu i roi i athrawon y sgiliau a’r offer i ymdrin â’r agweddau mwy sensitif a dadleuol ar Addysg Gydberthynas a Rhywioldeb.*

Ymarferydd ysgol brif ffrwd

Roedd ymatebwyr hefyd a oedd yn teimlo y byddai cyfleoedd hyfforddiant a chymorth ehangach dwyieithog yn bwysig i helpu ysgolion, gan gynnwys lleoliadau cyfrwng Cymraeg, i ymgysylltu â’r cwricwlwm newydd:

> *Mae’n hanfodol bod hyfforddiant, adnoddau a deunyddiau enghreifftiol, ar gael yn Gymraeg o’r cychwyn cyntaf.*

Ymarferydd ysgol brif ffrwd

## Cymorth ac Adnoddau Ehangach

Yn ogystal â hyfforddiant, roedd yr ymatebwyr hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cymorth ac adnoddau ehangach. Roedd hyn yn cynnwys cymorth gan sefydliadau allanol, megis nyrsys cymunedol, yn ogystal â deunyddiau ysgrifenedig ac adnoddau eraill i gynorthwyo’r dysgu a’r addysgu. O’r safbwyntiau hyn, gallai deunyddiau ac adnoddau helpu ymarferwyr i weld y cwricwlwm mewn ffordd ymarferol, a’u helpu i greu syniadau am sut i fynd i’r afael â’r themâu a’r materion sydd wedi’u cyflwyno yn y Cod.

> *Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb effeithiol yn gofyn am arbenigedd, amser ac adnoddau arbenigol - hyn yw'r broblem ar hyn o bryd mewn ysgolion uwchradd yn enwedig. Yn aml mae staff uwchradd yn gorfod dysgu gwahanol rannau o Addysg Rhyw heb hyfforddiant na chynhaliaeth jest am fod ganddynt amser rhydd ar yr amserlen ysgol! Nid yw hyn yn dderbyniol os ydych am wella'r ddarpariaeth addysg rhyw ac ni fydd ei wneud yn statudol yn ddigon i godi ei statws. Mae'n rhaid cael hyfforddiant i staff ac adnoddau Cymraeg safonol fel y pecyn cynradd 'Tyfu i Fyny' a'r pecyn uwchradd seiliedig ar y DVD Sense.*

Ymarferydd ysgol brif ffrwd

## Amser Cyfyngedig

Mewn gweithdai, cyfeiriodd ymarferwyr eraill at yr amser cyfyngedig sydd ganddynt i ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn amserlen yr ysgol. Awgrymodd hyn fod rhai ymarferwyr yn ymwybodol o’r hyn y gellid ei gyflawni’n realistig gyda’r dysgwyr yn ystod yr amser sydd ar gael. Er eu bod yn croesawu ehangder y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, teimlent y gallai prinder amser gyfyngu ar amrediad a dyfnder y themâu a’r materion a drafodir yn y dosbarth.

### Amrywiaeth yn y Dysgu a'r Addysgu

Pryder allweddol a gododd o'r ymatebion oedd y posibilrwydd o wahaniaethau mewn dulliau dysgu ac addysgu ar draws lleoliadau ac ysgolion. Roeddent yn tueddu i bwysleisio pwysigrwydd elfennau penodol o wybodaeth a sgiliau y dylai pob dysgwr eu datblygu drwy ddarpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. O'r safbwyntiau hyn, gallai'r ffocws cynyddol ar sybsidiaredd a rhoi mwy o berchnogaeth i leoliadau ac ysgolion dros y cwricwlwm arwain at amrywiaeth sylweddol yn ymarferol, gan gynnwys y themâu a'r materion a drafodir yn y dosbarth, a sut caiff cynnwys ei gyflwyno i'r dysgwyr. Roedd yr ymatebwyr a gyfeiriodd at y pryderon hyn yn tueddu i gefnogi dull mwy rhagnodol, lle maent yn amlinellu'r themâu a'r materion y dylid eu cwmpasu yn y dysgu a'r addysgu.

### Ymgysylltiad Cymunedol

Roedd cynnal ymddiriedaeth a chefnogaeth rhieni a gofalwyr hefyd yn ystyriaeth bwysig i lawer o ymarferwyr. Mewn gweithdai, er enghraifft, disgrifiodd uwch arweinwyr sut roedd dadleuon ehangach a sylw diweddar yn y cyfryngau wedi codi pryderon ymysg rhai rhieni a gofalwyr. Rhoddodd hyn gyfrifoldeb ychwanegol ar ysgolion a lleoliadau i gynnig sicrwydd i rieni a gofalwyr. O'r safbwyntiau hyn, gallai mwy o eglurder a chyfathrebu ynghylch y cynigion fod yn werthfawr i leddfu pryderon rhai rhieni a gofalwyr.

## Gwrthwynebiad i'r Dull Gweithredu

Cyflwynodd ymatebwyr amrywiaeth o wrthwynebiadau cyffredinol i'r dull gweithredu yn y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd. Roedd y rhain yn tueddu i godi cwestiynau am agweddau penodol ar y cynigion, neu gysyniad cyffredinol y dull gweithredu cyffredinol. Roedd y safbwyntiau hyn yn bennaf yn perthyn i rieni a gofalwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar-lein, yn ogystal ag unigolion a sefydliadau ehangach sydd â diddordeb yn y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd.

### Llesiant Plant a Phobl Ifanc

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu yn tueddu i bwysleisio hefyd bwysigrwydd sicrhau llesiant plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roedd y safbwyntiau hyn yn amrywio o ran sut gellid cyflawni hyn yn ymarferol. Roedd yr ymatebwyr a gynigiodd safbwyntiau mwy negyddol yn tueddu i ddadlau o blaid gwarchod dysgwyr rhag y themâu a'r materion dan sylw. Un o'r prif bryderon, er enghraifft, oedd pa mor briodol oedd darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yn arbennig i ddysgwyr iau:

> *Mae'r cwricwlwm cyfan yn ddatblygiadol amhriodol. Ni ddylai'r un plentyn, yn arbennig rhai ifanc iawn e.e. mor ifanc â 3 oed, fod yn trafod eu corff gydag athro nac unrhyw un ar wahân i'w rhiant.*

Rhiant neu Ofalwr

*Mae fy mhlentyn yn 7 oed ac ni ddylai fod yn dysgu am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ei hoed hi. Mae'n rhy ifanc i ddeall.*

Rhiant neu Ofalwr

Roedd yr ymatebwyr hefyd yn teimlo y gallai cael dysgwyr i ymwneud â themâu a materion a drafodir mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb waethygu yn hytrach na mynd i'r afael ag amryw faterion llesiant. Roedd hyn yn cynnwys deall y gallai cael dysgwyr i ymwneud â themâu megis iechyd rhywiol, rhywioldeb a hunaniaeth eu hannog i arbrofi, achosi mwy o ddryswch, a dilysu barn a theimladau plant a phobl ifanc. Canfyddiad yr ymatebwyr hyn oedd bod materion megis rhywioli plant a dysfforia rhywedd yn faterion i deuluoedd fynd i'r afael â hwy, ac na ddylid eu trafod yn yr ysgol:

*Dylai fod cydsyniad rhiant cyn i unrhyw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gael ei addysgu yn yr ysgol. Bydd hyn yn arwain at feichiogrwydd cyn pryd ymysg plant ifanc a hwythau eisoes yn agored i bornograffi ar-lein. Bydd rhai cymunedau'n gwrthod hyn ac efallai'n cael eu tramgwyddo gan y dull gweithredu hwn. Mae'n foesol ac yn foesegol anghywir penderfynu beth sy'n dda i ddisgyblion; rhieni sydd i benderfynu. Pwy wnaeth roi'r hawl i'r wladwriaeth benderfynu?*

Rhiant neu Ofalwr

## Rhyddid Mynegiant Crefyddol

Maes arall o bryder ynglŷn â'r cynigion oedd y cydbwysedd rhwng hawliau'r plentyn a hawliau i fynegiant crefyddol. Yn ganolog i hyn oedd y syniad bod rhywfaint o gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn anghydnaws â ffydd neu gredoau penodol. Roedd hyn yn cynnwys y ddealltwriaeth bod i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ddimensiwn moesol, ac y dylai uchafiaeth credoau'r teulu a chredoau crefyddol gael ei hategu yn y cynigion ond nad yw ar hyn o bryd:

*Er mwyn i'r Cod hwn gael ei ystyried yn 'gwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n seiliedig ar hawliau', mae'n rhaid iddo gynnwys hawliau unrhyw blentyn o unrhyw ffydd i arfer eu crefydd a hefyd barchu hawliau teuluoedd i ddarparu cyfeiriad ysbrydol i'w plant. Mae angen i hawliau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fod yn glir pan gyfeirir atynt, neu fel arall efallai na fydd yr addysgwyr yn ymwybodol ohonynt.*

Corff Proffesiynol / Grŵp Buddiant

*Teimlaf fod hawliau plant o ffydd a'u teuluoedd mewn perygl o gael eu tanseilio gan safbwynt moesol wedi'i orchymyn y mae'n bosibl nad ydynt yn ei rannu. Mae'n ymddangos bod yno ddiffyg cynrychiolaeth i hawliau a safonau rhyngwladol i blant, rhieni a rhyddid crefyddol.*

Unigolyn

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynglŷn ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r effaith bosibl ar Ysgolion Ffydd a chymunedau ffydd.

> *Mae angen i'r Canllawiau fod â pherthynas ehangach, mwy cynhwysol a mwy parchus â chymunedau ffydd. Yn arbennig rhai sydd â chredoau hanesyddol, ysbrydol sy'n ffurfio eu hymateb i'r materion hyn.*

Rhiant neu Ofalwr

## Diogelu Hawliau Rhieni

Gwrthwynebodd ymatebwyr hefyd i waredu'r hawl i dynnu plant allan o ddarpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Deellir bod y safbwyntiau hyn yn anghytuno â'r dehongliad o Hawliau'r Plentyn a gynigir yn y Canllawiau. Roedd y safbwyntiau hyn yn canolbwyntio ar y rôl bwysig sydd gan rieni a gofalwyr yn addysgu dysgwyr ynglŷn ag iechyd rhywiol a chydberthnasau. Maent hefyd yn cwmpasu dadleuon mwy cyfoes yn ymwneud ag agweddau problematig ynghylch rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, a hunaniaeth. Unwaith eto, o'r safbwyntiau hyn, dylid ategu uchafiaeth y teulu, ac roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod hyn ar goll yn y cynigion:

> *Dylai fod gan rieni'r hawl o hyd i leisio barn ynglŷn ag a ydynt eisiau i'w plentyn gael eu cynnwys mewn gwersi sy'n ymwneud â natur/cynnwys rhywiol.*

Rhiant neu Ofalwr

## Cydbwyso Hawliau Gwahanol Grwpiau

Cyfeiriodd eraill at bwysigrwydd cydbwyso hawliau gwahanol grwpiau, gan gynnwys plant a phobl ifanc, eu cyfoedion, a'u rhieni neu ofalwyr.

> *Y mae'n ddigon clir mewn llawer o ffyrdd, ond os mabwysiadu dull gweithredu'n seiliedig ar hawliau, nid yw'n glir sut y gall ysgolion esbonio sut y dylai hawliau'r dysgwyr gael eu cydbwyso yn erbyn hawliau pobl eraill.*

Rhiant a Gofalwr

Oddi mewn i'r thema hon, roedd canfyddiad hefyd y byddai hybu hawliau un grŵp yn dod ar draul hawliau grŵp arall. Yn ddealledig ac yn amlwg, roedd hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar ddadleuon a myfyrdodau ehangach ynghylch pwysigrwydd diogelu menywod a merched a pheidio â'u rhoi mewn perygl wrth hybu hawliau pobl drawsryweddol:

*Y mae dryswch cynhenid yn y weithred o ddisodli'r cysyniad o ryw gan y term rhywioldeb, sy'n anwybyddu'r gwrthddywediadau sydd ymhlyg mewn gwahanol agweddau ar hawliau dynol a gall arwain at esgeuluso angen merched am ddiogelwch a hunan-barch. Gall gwahaniaethu mewn un ffurf arwain at wahaniaethu anfwriadol mewn categori arall. Mae diogelu'r amrywiaeth gyfan o nodweddion bregus posibl yn galw am graffter y mae'n ymddangos ei fod ar goll ym manylion a drafodir yn y ddogfen hon.*

Rhiant neu Ofalwr

## Cipio Polisi

Mynegodd ymatebwyr bryderon hefyd y dylanwadwyd yn ormodol ar y broses o ddatblygu'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd gan sefydliadau neu safbwyntiau ideolegol penodol. O'r safbwyntiau hyn, roedd natur a chyfeiriad y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei hybu gan fuddion, syniadau neu grwpiau lobïo penodol. Roeddent yn tueddu i gwestiynu cymhellion y sefydliadau a'r prosesau dan sylw, gan gynnwys hybu hawliau grwpiau penodol dros eraill:

*Y prif reswm rwy'n llenwi hwn yw'r dylanwad gan* [sefydliad]*; grŵp pwyso yw'r sefydliad – y tu allan i'w nodau elusennol gwreiddiol a'r Ddeddf Cydraddoldeb. Nid yw plant yn ddiogel os yw propaganda* [y sefydliad] *yn golygu bod hynny'n bwysicach na diogelu.*

Lobïwr

## Cynnwys Rhywioldeb

Roedd ymatebwyr hefyd yn gwrthwynebu cynnwys rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd, am y teimlwyd bod hynny'n broblematig. Roedd hyn yn cynnwys y canfyddiad y gallai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb olygu bod plant a phobl ifanc yn agored i gynnwys a oedd yn amhriodol, yn arbennig i ddysgwyr iau:

*Fel rhiant, rwy'n ffieiddio wrth weld bod Llywodraeth Cymru'n credu ei bod yn briodol bod unrhyw le o gwbl i rywioldeb yn agos i gwricwlwm fy mhlentyn bach. Bydd addysgu rhywioldeb i blant yn eu rhywioli.*

Rhiant neu Ofalwr

## Safbwyntiau Rhywedd Feirniadol

Roedd pryderon gan ymatebwyr hefyd ynglŷn â'r canfyddiad o gyfuno rhyw a rhywedd yn null gweithredu cyffredinol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. O'r safbwyntiau hyn, mae gwahaniaeth clir rhwng rhyw biolegol a rhywedd, a bod hunaniaeth rhywedd yn syniad anwyddonol a niweidiol sy'n achosi dryswch ymysg plant a phobl ifanc:

*Mae'n ymddangos bod cynnwys rhywioldeb yn hytrach na rhyw wedi'i ddylunio i ddrysu, ac israddio gwybodaeth am realiti materol rhyw tra'n rhoi cysyniadau mwy annirnad megis hunaniaeth yn y blaendir.*

Rhiant neu Ofalwr

*Ni allwn gael cwricwlwm sy'n gwbl seiliedig mewn Theori Cwiar, fel hwn; theori anwyddonol sy'n seiliedig ar ôl-foderniaeth ac wedi'i dylunio i erydu ffiniau. Mae hyn yn ddi-hid a niweidiol. Ni allwn ddiystyru diogelu, a rhyw biolegol, a pheidio â darparu unrhyw ganllawiau ynglŷn ag addasrwydd darparwyr allanol. Byddai hynny'n fethiant ar ran ein plant. Ni allwn siarad yn anfeirniadol am hunaniaethau trawsryweddol neu feddyginiaeth, pan fo plant yn cofleidio 'hunaniaethau' ar gyfradd syfrdanol, gan guddio problemau iechyd meddwl go iawn a niweidio eu cyrff cyn dad-drawsnewid. Mae'n rhaid i ni fod yn gytbwys yn hyn i osgoi problemau'n nes ymlaen, a rhaid i ni beidio â phlannu hyn mewn plant ifanc. Nid oes gennyf unrhyw anhawster ynghylch cynrychioli gwahanol rywioldebau, gwahanol deuluoedd, gwahanol farn, ond mae'n rhaid cael cydbwysedd ac mae'n rhaid i ni addysgu ffeithiau dros ideoleg.*

Rhiant neu Ofalwr

Mae'r adroddiad yn awr yn troi i archwilio'r themâu a'r safbwyntiau penodol a godwyd gan ymatebwyr ynglŷn â'r Canllawiau a'r Cod.

# 3 Barn Ynglŷn â'r Canllawiau

Mae'r Canllawiau'n cynnwys cyngor statudol drafft a ddyluniwyd i gyfathrebu'r disgwyliadau a roddir ar ysgolion ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr a ddyluniwyd i archwilio eu barn ynglŷn â'r diffiniad a'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y Canllawiau, a'i strwythur a'i gynnwys.

## Diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Yn gyntaf, mae'r Canllawiau'n ceisio cyfathrebu paramedrau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Fel rhan o ddiffiniad ehangach, mae'n cynnwys:

> *Dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gefnogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd i ddeall sut mae cydberthnasau a rhywioldeb yn llywio eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. Dylai dysgwyr gael eu paratoi a'u grymuso i ofyn am gymorth ar faterion sy'n ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac eirioli drostyn nhw eu hunain ac eraill.*

Dogfen Ymgynghori, tud. 7

Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn gyntaf a oeddent yn teimlo bod y diffiniad ehangach sydd wedi'i gynnwys yn y Canllawiau yn glir ac effeithiol.[1]

### Esboniad Clir a Diffiniad Da

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod y diffiniad cyffredinol yn y Canllawiau yn glir. O'r safbwyntiau hyn, roedd tuedd hefyd i gytuno'n benodol a dealledig â chysyniad a chyfeiriad cyffredinol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel sydd wedi'i amlinellu yn y Canllawiau:

> *Ar ôl darllen drwy'r Canllawiau, rwy'n cytuno bod y diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i wneud yn glir.*

Rhiant neu Ofalwr

> *Rwy'n hoffi'r ffordd mae'n disgrifio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n seiliedig ar 'hawliau a chydraddoldeb'. Mae'n glir bod ffydd, credoau, hawliau dynol a diwylliant yn berthnasol i bob agwedd ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gan gynnwys rhyddid, urddas a diogelwch pobl ifanc – hyfryd. Maen nhw'n frawddegau pwysig a chlir iawn yn yr adran 'Beth yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb'.*

Consortiwm Rhanbarthol

[1] Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno bod yr esboniad o'r diffiniad o addysg cydberthynas a rhywioldeb yn glir?

## Mwy o Fanylion

Roedd eraill yn teimlo y byddai mwy o fanylion a manwl gywirdeb yn fuddiol. Cynigiodd yr ymatebwyr amrywiaeth o awgrymiadau ar ba fanylion pellach allai gryfhau'r canllawiau. Roedd y rhain yn cynnwys cyfeirio'n fwy penodol at themâu neu faterion penodol yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylid eu cynnwys yn y dysgu a'r addysgu:

> *Rwy'n cytuno bod y diffiniad yn glir ac yn cefnogi datblygu cydberthnasau iach a diogel; mae'n briodol i bob grŵp blwyddyn; mae'n seiliedig ar hawliau a thegwch. Fodd bynnag, mae rhywbeth ar goll ynglŷn ag urddas y person ac urddas bywyd.*

Ymarferydd Ysgol Brif Ffrwd

> *Mae'n ymddangos eu bod yn hepgor addysgu bioleg, gan gynnwys atal cenhedlu. Canlyniad cyfathrach rywiol yw atgenhedlu ac ni chaiff hyn ei grybwyll. Wrth gwrs, mae llawer o achosion lle caiff atgenhedlu ei osgoi ac mae llawer o bobl hefyd yn cael cydberthnasau o'r un rhyw – mae'n bwysig archwilio'r rhain, ond nid oes sylw i swyddogaeth biolegol rhyw!*

Heb ddatgelu

Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at bwysigrwydd cael mwy o eglurder ynghylch cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i weithredu'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd:

> *[Rydym yn] cytuno bod y diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn glir yn gyffredinol. Mae pwyslais cryf ar bwysigrwydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr i ddatblygu cydberthnasau iach a chadarnhaol… Yn y diffiniad ar dudalen 7, mae'r Canllawiau'n cyfeirio at "[b]ob dysgwr yn meithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae ffydd, credoau, hawliau dynol a diwylliannau pobl yn gysylltiedig â phob agwedd ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb". Mae perygl y gallai rhai darparwyr gamddehongli hyn heb eglurhad pellach. Gallai fod yn ddefnyddiol pwysleisio eto bwysigrwydd addysgu safbwyntiau plwraliaethol lle gallai cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb orgyffwrdd ag addysgu gwerthoedd a moeseg yn y cwricwlwm.*

Sefydliad

## Manwl Gywirdeb Ynghylch Terminoleg

Yn ogystal â mwy o ddyfnder, teimlodd rhai ymatebwyr y gallai'r derminoleg gael ei gwneud yn fwy eglur neu'n fwy hygyrch. Roedd hyn yn cynnwys termau megis plwraliaethol a rhywioldeb:

> *Mae'r esboniad a'r diffiniad yn eang, ac yn cwmpasu hawliau, gwahanol ffydd, diogelwch, yn cysylltu â'r cwricwlwm newydd ac ati. Caiff pwyslais ei roi ar gydberthnasau, sy'n beth da. Fodd bynnag, ni chaiff agweddau eraill megis newidiadau i'r corff yn ystod glasoed, newidiadau biolegol eraill ac ati, eu gwneud yn glir. Gallai rhywfaint o'r derminoleg (e.e. plwraliaethol) fod yn anodd i'w ddehongli – mewn egwyddor ac mewn realiti. Mae'r polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn dweud 'argymhellir' ond does bosibl y dylai hyn fod yn rhan ddisgwyliedig o ddarpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ynghyd â'i gynnwys mewn gwybodaeth i rieni a gofalwyr – e.e. prosbectws?*

Rhiant neu Ofalwr

## Gwrthwynebiadau Ynghylch Terminoleg

Gwrthwynebodd eraill i derminoleg neu gysyniadau penodol yn y diffiniad a'r rhestr termau. Roedd rhai ymatebwyr, er enghraifft, yn canolbwyntio ar derminoleg rhywedd yr oeddent yn credu ei bod yn anghywir ac amhriodol. Roedd hyn yn cynnwys termau megis rhywedd ac anneuaidd:

> *Rwy'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy eglur ynglŷn â'i diffiniad o rywioldeb a pham ei bod wedi penderfyni defnyddio'r derminoleg hon, yn lle'r Addysg Rhyw a Chydberthynas arferol.*

Rhiant neu Ofalwr

> *Ni chaiff anneuaidd ei ddiffinio o gwbl, ac ni chaiff ei esbonio nad yw anneuaidd yn nodwedd warchodedig yn y ddeddf cydraddoldeb. Cred ydyw, nid ffaith."*

Corff Proffesiynol / Grŵp Buddiant

> *Nid yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn niwtral na ffeithiol ei sylfaen am ei bod yn defnyddio termau anffeithiol fel anneuaidd i hybu ideoleg rhywedd ar draul addysg rhyw, felly mae'n hybu barn benodol. Yn nes ymlaen yn y ddogfen mae'r Trais yn erbyn Menywod yma yn troi i Drais ar Sail Rhywedd, term nad yw yn y diffiniad. Gwaredwch y term rhywedd o'r ddogfen hon.*

Rhiant neu Ofalwr

### Ymhelaethu ar y Sail Resymegol

Mewn trafodaethau mwy agored ag ymarferwyr ac uwch arweinwyr mewn gweithdai, teimlodd yr ymatebwyr y gallai mwy o fanylion ynglŷn â sail resymegol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd yn y Canllawiau fod yn werthfawr i'w helpu i fynegi'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys i gydweithwyr a rhieni a gofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys cyfathrebu pam y gallai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn bwysig i ddysgu ac addysgu, gan gynnwys hybu llesiant dysgwyr a pharch ar draws cymuned yr ysgol.

## Egwyddorion Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae'r Canllawiau'n cyflwyno egwyddorion a ddylai lywio dyluniad a chyflawniad Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn lleoliadau ac ysgolion. Ymysg eraill, roedd y rhain yn cynnwys:

> *Dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn rhan o ddull ysgol gyfan a chael ei hintegreiddio a'i chydgysylltu'n effeithiol ym mhob rhan o'r cwricwlwm.*

Dogfen Ymgynghori, tud. 12

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn, gan gynnwys a oedd yr egwyddorion yn glir.[2]

### Cefnogaeth i'r Egwyddorion

Cytunwyd yn gyffredinol â'r egwyddorion sy'n cael eu disgrifio yn y Canllawiau, yn arbennig ymysg ymarferwyr ac uwch arweinwyr. Codwyd hyn mewn gweithdai, lle'r oedd yr ymarferwyr yn aml yn teimlo bod yr egwyddorion yn cyfleu gweledigaeth glir o'r dull gweithredu y dylai lleoliadau ac ysgolion fod yn ei ddefnyddio mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Roedd hyn yn cynnwys cytuno'n benodol ac yn ddealledig â'r dull ysgol gyfan, rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu ym mhob rhan o'r cwricwlwm, a'r dull yn seiliedig ar hawliau a thegwch.

> *Yn bersonol, mae'n ymddangos yn gwbl hanfodol bod yr egwyddorion hyn yn eu lle ac y cedwir atynt.*

Ymarferydd Ysgol Brif Ffrwd

> *Mae'n bwysig trafod cydberthnasau ymarferol ag eraill a sut rydym yn trin pobl â charedigrwydd a pharch. Mae'n gyfreithiol ofynnol ymdrin â llawer o'r pynciau hyn.*

Rhiant neu Ofalwr

[2] Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno bod yr egwyddorion ar gyfer ymwreiddio addysg cydberthynas a rhywioldeb yn glir?

## Mwy o Fanylion a Gwybodaeth

Teimlodd llawer y byddai mwy o fanylion a gwybodaeth yn fuddiol i ymarferwyr wrth weithredu ar y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd. Roedd hyn yn cynnwys cyfeirio'n fwy penodol at themâu neu faterion yn yr egwyddorion ond hefyd yn fwy cyffredinol ar draws y Cynlluniau a'r Cod yn eu cyfanrwydd. O'r safbwyntiau hyn, byddai mwy o fanylion yn werthfawr i helpu lleoliadau ac ysgolion i ddeall a dehongli'r cwricwlwm newydd:

> *Cytunwn fod yr egwyddorion ar gyfer ymwreiddio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn glir, a chytunwn yn gyffredinol â'r ehangder a'r cynnwys y maent yn eu cwmpasu. Hoffem gymeradwyo'r ffaith bod yr egwyddorion yn ataliol, cynhwysol a chadarnhaol, ac yn ymgorffori dull ysgol gyfan. Er bod yr egwyddorion o werth go iawn, ar hyn o bryd mae bwlch yn y Canllawiau o ran cyfarwyddyd penodol sut yn union y dylai ysgolion ac ymarferwyr weithredu'r Canllawiau a datblygu a chyflawni eu cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Efallai bod canllawiau ategol i ddilyn; fodd bynnag, mae sawl maes lle y dylai'r Canllawiau gyflwyno darlun manylach a mwy eglur o'r hyn sy'n ofynnol gan athrawon ac ysgolion. O ystyried bod ymchwil yn dangos bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel arfer yn cael ei chyflwyno gan staff sydd heb hyfforddiant arbenigol, ac sy'n dweud eu bod yn teimlo'n bryderus a heb baratoi'n ddigonol i'w gyflwyno, mae canllawiau mwy eglur ar ddatblygu'r cynnwys a gweithredu'r cwricwlwm yn hollbwysig.*

Consortiwm Rhanbarthol

Teimlodd eraill y dylid cyfeirio'n fwy penodol yn yr egwyddorion at rôl bwysig rhieni a gofalwyr. O'r safbwyntiau hyn, byddai ymgysylltu mwy â rhieni yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn sensitif i farn a safbwyntiau rhieni a gofalwyr, gan gynnwys cynnal hyder ac ymddiriedaeth:

> *Cytunwn yn gryf fod yr egwyddorion ar gyfer ymwreiddio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael eu gwneud yn glir:*
>
> - *ffocws ar lesiant a diogelwch*
> - *y dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau a thegwch*
> - *y dull ysgol gyfan*
> - *gofynion dysgu proffesiynol*
> - *defnyddio gwasanaethau arbenigol ac arbenigedd*
> - *cynnydd.*
>
> *Fodd bynnag, mae'r eglwys Gatholig yn cydnabod rôl rhieni fel prif addysgwyr eu plant ac nid yw'r egwyddorion yn dweud yn eglur bod gan rieni rôl i'w chwarae yn datblygu'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.*

Ymarferydd Ysgol Brif Ffrwd

Teimlodd yr ymarferwyr hefyd y gellid cyfeirio'n fwy penodol at themâu a materion yn yr egwyddorion ac ar draws y Canllawiau. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o faterion penodol, gan gynnwys cyfeillgarwch, cydsynio a cham-drin ac esgeulustod. O'r safbwyntiau hyn, byddai cyfeiriadau mwy penodol yn helpu i sicrhau eu bod yn cael eu harchwilio mewn ffordd sensitif gyda'r dysgwyr:

> *Er bod gwybodaeth am Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol wedi'i chynnwys, nid oes pwyslais ar nodi'r arwyddion rhybuddio cynnar a beth i'w wneud a fyddai'n ataliol. Diffyg pwyslais ar gydsynio, cydberthnasau iach, trosedd gasineb neu aflonyddu ar fenywod a merched ar y stryd a sut i'w herio yn ddiogel.*
>
> Ymarferydd Ysgol Brif Ffrwd

> *Yn yr adran 'Egwyddorion cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb effeithiol', awgrymwn fod manylion yn cael ei roi ynglŷn â darparu'r sgiliau a'r gallu i ddysgwyr adnabod mathau eraill o gam-drin ar wahân i drais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, megis camfanteisio'n rhywiol ar blant a'r hyn a elwir yn 'drais ar sail anrhydedd'.*
>
> Sefydliad Gofal Iechyd

> *Mae'n gadarnhaol gweld bod cyfres o egwyddorion allweddol wedi'i chynnwys i gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb effeithiol yn y Canllawiau. Dylai'r Canllawiau nodi'n glir, nid yn unig y cynnwys y dylid ei addysgu, ond sut y dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gael ei dylunio, ei chyflwyno, ei chynorthwyo a'i hymwreiddio ar draws yr ysgol a'r gymuned yn ehangach. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn go ddryslyd. Maent yn wahanol i'r 'egwyddorion i ymwreiddio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm' sydd eisoes wedi'u cyhoeddi yn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru 2020; ac mae cysyniadau allweddol ar goll megis hawliau, creadigrwydd, datblygiadol briodol, holistaidd a grymusol… [Rydym hefyd] yn bryderus nad yw dull sy'n cael ei lywio gan drawma wedi'i nodi ar hyn o bryd yn egwyddor allweddol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb effeithiol.*
>
> Sefydliad y Sector Gwirfoddol

Nododd rhai fod rôl bwysig i gymorth ehangach wrth gyflawni Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac y dylid cyfeirio’n fwy penodol at hyn yn y Canllawiau:

> *Gresynwn nad eir i’r afael â rôl nyrsys ysgol, sydd wedi’i gydnabod yng Nghanllawiau drafft 2019, ac ni chyfeirir ati fan yma. Fel a nodwyd yn nrafft 2019, mae nyrsys ysgol yn ffynhonnell werthfawr o gyngor a chymorth proffesiynol i ddysgwyr a gallant drefnu mynediad i wasanaethau iechyd rhywiol. A hwythau’n meddu ar hyfforddiant ac arbenigedd cynhwysfawr, mae nyrsys ysgol wedi’u paratoi i chwarae rôl arweiniol wrth gyflawni Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb… Byddai cynnwys pwy sy’n gyfrifol am gyflawni Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhoi eglurder i unrhyw ansicrwydd ac yn sicrhau bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o’r ansawdd uchaf yn cael ei darparu i ddisgyblion a phlant. Mae egwyddorion cyflawni Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb effeithiol fel a ddisgrifiwyd yn y Canllawiau drafft yn glir ac i’w croesawu, yn benodol y gydnabyddiaeth bod rôl i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wrth hybu iechyd a llesiant plant a phobl ifanc yn ehangach gan gynnwys iechyd corfforol meddyliol ac emosiynol.*

Corff Proffesiynol

## Strwythur a Chynnwys

Gofynnwyd i’r ymatebwyr wedyn a oeddent yn teimlo bod strwythur a chynnwys cyffredinol y Canllawiau yn glir a hygyrch.[3]

### Clir a Chryno

Roedd yr ymatebwyr, a rhai ymarferwyr ac uwch arweinwyr yn benodol, o’r farn bod y Canllawiau yn glir a hygyrch. Roeddent yn teimlo eu bod yn cyfathrebu dealltwriaeth gytbwys o baramedrau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac yn rhoi gwybodaeth werthfawr am sut i fynd i’r afael â’r themâu a’r materion sydd wedi’u cwmpasu yn y cwricwlwm:

> *Mae’r Canllawiau’n canfod cydbwysedd clir rhwng amlinellu diben Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ysgolion a beth y dylid ei addysgu, a chaniatáu sybsidiaredd a’r gallu i ysgolion benderfynu beth sydd fwyaf priodol ar gyfer cyd-destun eu dysgwyr hwy. Mae’n glir bod hyn yn gydnaws â’r Cwricwlwm i Gymru.*

Corff Proffesiynol

### Disgwyliadau Cliriach

Teimlodd rhai y gallai’r Canllawiau gyfeirio’n fwy clir at ddisgwyliadau penodol a roddir ar leoliadau, ysgolion a chyrff llywodraethu. Byddai hyn o gymorth i ymgysylltu â’r cwricwlwm, a chyfathrebu’r diwygiadau i rieni a gofalwyr:

[3] Cwestiwn 3: Ydych chi’n cytuno bod strwythur a chynnwys y canllawiau yn glir?

*Mae strwythur y Canllawiau'n glir ac mae cynnwys y Cod yn glir. Fodd bynnag, yn Adran 1 – Canllawiau Statudol, mae diffyg eglurder yn y canlynol:*

- *Cynulleidfa (tud. 6): nid oes cyfeiriad at gyrff llywodraethu.*
- *Tynnu plant o wersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn raddol: mae hyn yn ddryslyd i rieni. Mae angen amserlen ar gyfer grwpiau blwyddyn perthnasol a sut y byddai'n gweithio'n ymarferol.*

Llywodraethwr Ysgol

## Mwy o Fanylion ar Gynnwys

Un thema a gododd dro ar ôl tro yn yr ymatebion oedd pwysigrwydd bod yn fwy penodol yn y Canllawiau a'r Cod. Roedd hyn yn cynnwys cyfeirio'n fwy penodol at amrywiaeth eang o themâu neu bynciau y mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn eu cwmpasu. O'r safbwyntiau hyn, byddai hyn yn sicrhau y byddant yn cael eu trafod yn y dosbarth, gan gynnwys mewn ffordd ddatblygiadol briodol:

*Hoffem weld mwy ynghylch cydsynio a pharch, yn benodol mewn perthynas â'r ffaith bod pornograffi yn fwy hygyrch ac yn cam-gynrychioli cydberthynas rywiol iach a diogel.*

Llywodraethwr Ysgol

*Llinyn 2 - llencyndod 'Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae hormonau yn parhau i effeithio ar iechyd emosiynol a chorfforol yn ystod oedolaeth' – mae hyn yn wych ond dylai gyfeirio'n benodol at iechyd mislif a pherimenopos/menopos.*

Rhiant neu Ofalwr

*Dyma faes sydd yn rhaid i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fynd i'r afael ag ef: hawliau menywod ar sail rhyw, aflonyddu rhywiol a cham-drin. Mae angen i blant a phobl ifanc ddeall y ffeithiau a realiti'r sefyllfa er mwyn meddu ar ffiniau diogel ac er mwyn gallu cydsynio. Rwy'n siomedig iawn nad yw pornograffi a phuteindra yn cael eu crybwyll. Mae'r ddau yn drais rhyweddol ac yn Drais yn Erbyn Menywod a Merched. Caiff pornograffi a phuteindra effeithiau negyddol ar fechgyn a dynion hefyd. Mae'n rhaid i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fynd i'r afael â hwy.*

Ymarferydd Ysgol Brif Ffrwd

Nododd rhai ymatebwyr hefyd bwysigrwydd cyfeirio'n fwy penodol at ymgysylltu â dysgwyr sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig a chanllawiau ar gyfer hynny:

> *Mae angen rhoi mwy o sylw i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddisgyblion sydd ag anabledd. Mae'r canllawiau'n anwybyddu'r ffaith bod y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd. Fel rhywun sydd ag Awtistiaeth ac anableddau eraill, credaf fod llawer o faterion sy'n golygu bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn anodd. Er enghraifft, dryswch ynglŷn â ffiniau, am fathau anodd o gydberthynas, anhawster yn deall rhywioldeb a nodi eu cyfeiriadedd rhywiol… Dylai athrawon fod yn fwy ymwybodol o hyn a darparu cymorth ychwanegol, hyd yn oed pan nad yw hyn fel arfer yn angenrheidiol. I rai disgyblion anabl, mae risg uchel hefyd o rywun yn manteisio neu'n camfanteisio arnynt mewn perthynas ramantus.*

Rhiant neu ofalwr

## Mwy o Fanylion ar Addysgeg

Yn ogystal â mwy o ddyfnder a manylion o ran 'beth', gofynnodd yr ymatebwyr hefyd am fwy o fanylion am 'sut' y dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gael ei hymwreiddio yn y dysgu a'r addysgu. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio mwy o enghreifftiau a dolenni i adnoddau ehangach i helpu ymarferwyr, yn benodol ynghylch gweithredu dull ysgol gyfan ac ymwreiddio dysgu ac addysgu trawsgwricwlaidd.

## Mwy o Fanylion ar Ddiogelu

Maes arall y teimlodd yr ymatebwyr y gellid rhoi mwy o sylw iddo yn y Canllawiau oedd diogelu. Mae hyn yn cynnwys y prosesau a'r gweithdrefnau y dylai ymarferwyr eu dilyn mewn achosion pan gaiff gwybodaeth ei datgelu gan ddysgwyr sy'n tanseilio eu llesiant, neu'n berygl o wneud hynny:

> *Mae cynnwys y Canllawiau'n glir, fodd bynnag, mae lle o hyd i annhegwch wrth gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb am nad oes enghraifft glir o sut mae cyflawni hyn. Er bod cyfeiriad at ddiogelu, mae angen iddo fod yn ymhlyg beth mae hyn yn ei olygu ym mhob blwyddyn. Mae angen mwy o fanylion.*

Corff Proffesiynol

## Iaith Glir a Therminoleg Gyson

Nododd rhai eu bod yn ei chael yn anodd deall y derminoleg a ddefnyddiwyd neu bod anghysonderau ar draws y Canllawiau. Teimlwyd y gallai mwy o fanwl gywirdeb a hygyrchedd fod yn werthfawr er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o nodau a chynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

> *Mae diffyg eglurder yn y cynnwys mewn mannau a byddem yn argymell defnyddio iaith symlach a mwy clir drwy gydol y ddogfen i'w gwneud yn fwy cryno a llai agored i ddehongliad. Mae diffyg cyfeiriadau clir yn y Canllawiau at adnoddau fel y Daflen Ffeithiau ar Erthyliad, sy'n ffeithiol ac yn seiliedig ar dystiolaeth, a gyhoeddom ar y cyd â Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a Gynaecolegwyr i gynorthwyo ysgolion i gyflwyno gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb cywir mewn ysgolion uwchradd.*

Corff Proffesiynol

## Pryderon Ynghylch Terminoleg Rhywedd

Mynegodd rhai bryderon ynghylch cysyniadau neu dermau penodol sy'n cael eu defnyddio yn y Canllawiau. Roedd y rhain yn tueddu i adlewyrchu safbwyntiau ehangach ynghylch y canfyddiad o gyfuno rhyw a rhywedd:

> *Mae'r cynnwys yn anghyson ac yn fwriadol amwys. Mae'r Canllawiau'n aneglur iawn ynglŷn â'r gwahaniaethau rhwng rhyw, cyfathrach rywiol a rhywedd. Mae gofyn cyfeirio'n gyson at y rhestr termau yn y cefn, sy'n cynnwys diffiniadau anarferol, er mwyn deall y cysyniadau newydd sy'n cael eu gorfodi. Mae'r cyfle sy'n cael ei ddarparu gan y Canllawiau yma i roi 'rhywedd' yn lle 'rhyw' yn sylfaenol rywiaethol. Menywod a merched fydd yn dioddef fwyaf o ddiystyru rhyw, os nad dileu rhyw yn wleidyddol.*

Rhiant neu Ofalwr

Mae'r adroddiad hwn yn troi'n awr i roi sylw i farn ynglŷn â'r Cod.

# 4 Barn Ynglŷn â'r Cod

Mae Cod y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ceisio cyfathrebu'r elfennau gorfodol y dylid eu cynnwys yn y dysgu a'r addysgu. Mae'r Cod yn dadansoddi'r themâu a'r materion sy'n cael eu cwmpasu mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gan gynnwys:

- Datblygu a mynegi hunaniaeth a meithrin cydberthnasau;
- Deall iechyd rhywiol a lles.
- Meithrin diogelwch a pharch, gwerthfawrogiad o'r person a chefnogaeth.

## Eglurder y Cod

Gofynnwyd i ymatebwyr yr ymgynghoriad am eu barn ynglŷn â'r Cod, gan gynnwys a oedd yn glir a phriodol.[4]

### Clir ac Effeithiol

Roedd rhai ymarferwyr o'r farn bod y Cod yn glir ac effeithiol wrth gyfathrebu hyd a lled y cynnwys a sut y dylid mynd i'r afael ag ef mewn ffordd sy'n ddatblygiadol briodol. Roedd rhai, er enghraifft, yn teimlo bod y manylion ar ddarpariaeth ddatblygiadol briodol yn werthfawr a llawn gwybodaeth:

> *Mae adran Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn darparu gwybodaeth glir a phriodol i ysgolion. Mae'r 3 llinyn yn rhoi cyd-destunau ar gyfer dysgu. Mae'r tabl cynnwys ar gyfer y tri llinyn yn mynegi'n glir y ffocws ar gyfer dysgu ar bob cam datblygiadol.*

Ymarferydd ysgol brif ffrwd

Roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu hefyd i fynegi cefnogaeth benodol a dealledig i'r themâu a'r materion a drafodir yn y Cod:

> *Mae ar bobl ifanc angen atebion gonest ar y pwnc hwn.*

Rhiant neu Ofalwr

### Mwy o Fanylion

Fodd bynnag, cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at bwysigrwydd cael mwy o fanylion yn y Cod. Yn aml, teimlodd yr ymatebwyr fod y Cod ar lefel uchel iawn, ac y byddai bod yn fwy penodol yn werthfawr er mwyn pennu union ffocws a hyd a lled y themâu a'r materion sydd wedi'u cynnwys mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Byddai hyn o gymorth i ddehongli'r Cod yn fwy manwl gywir, a helpu ymarferwyr i ymwneud â'r cwricwlwm yn fwy effeithiol:

[4] Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno bod yr adran Cod addysg cydberthynas a rhyw yn glir ac yn briodol?

*Ceir cytundeb cyffredinol bod adran Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn glir a phriodol. Fodd bynnag, byddai rhai awdurdodau lleol yn argymell datblygu'r Canllawiau ymhellach i osgoi unrhyw achos o gamddehongli yn yr agwedd sensitif hon ar y cwricwlwm. Gallai prototeip o gynlluniau dysgu neu enghreifftiau o deithiau dysgu, fel a ddarperir yng Nghanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, helpu ymarferwyr i ddatblygu gwell dealltwriaeth o gynnydd pob llinyn.*

Awdurdod Lleol

Teimlodd rhai fod yr ystodau oedran yn go eang ac y gallent gwmpasu amrywiaeth eang o anghenion, safbwyntiau a datblygiad dysgwyr. Roedd hyn i'w weld yn arbennig yn achos ysgolion uwchradd, lle y teimlwyd y gallai'r amrywiaeth yn natblygiad y dysgwyr fod yn eang, gan gynnwys oddi mewn i grwpiau blwyddyn ac ar eu traws. O'r safbwyntiau hyn, byddai mwy o fanylion a Chanllawiau yn y Cod yn werthfawr er mwyn penderfynu beth a sut i'w addysgu mewn ffordd sy'n ddatblygiadol briodol.

*Gwerthfawrogwn fod cwmpasu'r hyn sy'n bwysig am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddysgwyr o bob oedran a chamau datblygiadol mewn tri gosodiad yn heriol a chymhleth. Mae'r tri llinyn/cam cyffredinol yn cysylltu'n dda a'r tri gosodiad ac yn cwmpasu agweddau pwysig yn ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Fodd bynnag, oherwydd natur eang y tri gosodiad, mae'r cynnwys sydd wedi'i gyflwyno yn y tri llinyn yn gyffredinol iawn. Er mwyn rhoi ystyr go iawn i'r cynnwys mae angen mwy o fanylion, er mwyn ymhelaethu ar y penawdau hyn a deall beth yw'r bwriad ar gyfer pob un ohonynt. Gyda'r fath benawdau eang, trosfwaol, mae perygl na chaiff pynciau eu trafod ag ansawdd, ehangder a manylder digonol, a gallai cynnwys pwysig gael ei hepgor.*

Sefydliad Addysg Uwch

Yn yr un modd, teimlodd yr ymatebwyr y byddai'n werthfawr bod yn fwy eglur a phenodol yn y Cod, yn ogystal a darparu hyfforddiant, adnoddau a chymorth ehangach:

*Cytunwn, gyda'r amod y bydd modd i'r gweithwyr proffesiynol a fydd yn cyflenwi'r rhan orfodol o'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb addasu a gwahaniaethu yn unol ag anghenion datblygiadol y dysgwr. Fodd bynnag, teimlwn y gallai'r camau hyn fod yn agored i ddehongliad. Byddai canllawiau pellach, dysgu proffesiynol cynhwysfawr, cynlluniau dysgu enghreifftiol a deunyddiau dysgu cymeradwy o fudd i'r gwahanol gamau. Byddai hyn yn gwella cysondeb ac yn cynyddu hyder ymarferwyr sy'n cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.*

Awdurdod Lleol

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm Ehangach

Teimlodd yr ymatebwyr y byddai cysylltiadau mwy penodol ag elfennau eraill o'r cwricwlwm yn werthfawr i ymarferwyr. Byddai hyn yn fuddiol i'r sawl sy'n dymuno mynd ati i ymwreiddio rhagor o gyfleoedd dysgu trawsgwricwlaidd:

> *Dylai'r ymarferwyr hefyd edrych am gyfleodd i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ym mhob Maes arall. Er enghraifft, mae cyd-ddibyniaeth glir â'r agweddau biolegol a thechnolegol ar Faes Gwyddoniaeth a Thechnoleg a natur gymhleth cymdeithasau pobl ym Maes Dyniaethau.*

Corff Proffesiynol

## Terminoleg Gliriach

Nododd rhai ymatebwyr fod angen diffiniadau cliriach ar gyfer rhai termau i sicrhau cysondeb yn y modd mae pob lleoliad ac ysgol yn dehongli'r cynnwys a'r themâu. Roedd hyn yn cynnwys:

> *Ar hyn o bryd mae'n ymddangos bod y ddogfen yn sôn am 'llinynnau' 'themâu' 'materion', yn gyfnewidiol (t13). Mae angen iaith sy'n fwy eglur i helpu athrawon i lywio drwy'r ddogfen ganllaw hon yng nghyd-destun dogfennau a chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru.*

Consortiwm Rhanbarthol

## Terminoleg Amhriodol

Roedd rhai'n teimlo bod y Cod yn cynnwys terminoleg neu gysyniadau a oedd yn amhriodol ac anghywir, megis y canfyddiad o gyfuno rhyw a rhywedd, a'r ffocws ar hunaniaeth:

> *Rwy'n bryderus ynglŷn â geiriad 'Datblygu a mynegi hunaniaeth'. Nid oes angen i blant ddatblygu 'hunaniaeth' ac mae'r gair 'hunaniaeth' yn awgrymu y dylent eu labelu eu hunain mewn rhyw ffordd a bodloni'r 'hunaniaeth' honno. Dylai plant ddatblygu synnwyr o hunan a bod yn gyfforddus â'u hunain a'u personoliaeth, ond nid oes angen iddynt 'ddatblygu a mynegi' hunaniaeth. Nid oes angen i blant eu labelu eu hunain mewn perthynas â'u rhywioldeb neu rywedd ac nid oes angen iddynt 'fynegi hunaniaeth'. Mae angen iddynt fynegi eu hunain a bod yn gyfforddus â'u hunain. Rwy'n credu bod hyn yn wahaniaeth pwysig.*

Rhiant neu Ofalwr

> *Yn yr adran am themâu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, rydych unwaith yn rhagor yn defnyddio rhywedd, y tro hwn yn gysylltiedig â rhywioldeb yr ydych yn ei ddefnyddio'n derm ymbarél ar gyfer "cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaethau a rolau o ran rhywedd, rhyw, atgynhyrchu ac agosatrwydd." Drwy wthio'r rhain ynghyd rydych yn colli pwysigrwydd cyfeiriadedd rhywiol sy'n seiliedig ar ryw pobl, nid ar eu hunaniaeth rhywedd, hynny yw, mae awgrymu y dylai pobl gyfunrywiol fod yn atynedig at rywun sydd o'r rhyw arall ond sy'n cyflwyno â'r un rhywedd (stereoteip) yn gwaredu'r frwydr anodd sydd wedi'i hennill am eu hawliau i gael cydberthnasau o'r un rhyw. Y mae hefyd yn amharu ar ymreolaeth unigolion o'u cyrff drwy wthio rhywbeth nad yw'n seiliedig ar wyddoniaeth sefydledig ac sydd yn hytrach yn ddim ond damcaniaeth wedi'i chyflwyno gan wyddonydd cymdeithasol.*

Rhiant neu Ofalwr

## Cynnwys sy'n Briodol i'r Dysgwr

Oddi mewn i'r tair thema y dylid eu cynnwys yn narpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, roedd y Cod drafft yn cyflwyno mwy o fanylion ar gynnwys sy'n briodol i'r dysgwr. Nod y Cod oedd cyfathrebu gosodiadau dysgu sy'n adlewyrchu blociau adeiladu cynnydd o ddatblygiad cynnar hyd at laslencyndod. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod y cynnwys yn cwmpasu'r hyn sy'n bwysig ar draws Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.[5]

### Cytuno â'r Cod

Cytunodd y ymatebwyr yn glir â chysyniad cyffredinol a chynnwys y Cod drafft, yn benodol ymysg ymarferwyr ac uwch arweinwyr. Roedd hyn yn cynnwys hyd a lled a ffocws y themâu a nodir yn y Cod:

> *Rwy'n cytuno'n gyffredinol bod Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cwmpasu'r hyn sy'n bwysig i ddysgwyr ar y gwahanol oedrannau a chamau datblygiadol.* [Mae'n bwysig ystyried] *cynllunio: cyfatebiaeth rhwng y cyfnodau ac ar draws disgyblaethau.* [Dylai] *rhieni fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.*

Llywodraethwr Ysgol

[5] Cwestiwn 4: Rydym yn cynnig y bydd y cynnwys a nodir yn nhri cham bras y canllawiau yn dod yn orfodol fel rhan o'r cod addysg cydberthynas a rhywioldeb. Ydych chi'n cytuno eu bod nhw'n cwmpasu'r hyn sy'n bwysig am addysg cydberthynas a rhywioldeb ar gyfer oedran a cham datblygu pob dysgwr?

## Mwy o Fanylion

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo mai buddiol fyddai cael mwy o eglurder a bod yn fwy penodol yn y Cod ynghylch darpariaeth sy'n ddatblygiadol briodol. Roedd hyn yn aml yn seiliedig ar y canfyddiad bod y gosodiadau yn y Cod ar lefel uchel iawn. Er bod llawer yn cytuno â phwysigrwydd y gosodiadau, roeddent yn teimlo mai anodd yw gweld yn ymarferol sut y gellid eu cynnwys yn y dysgu a'r addysgu. Gyrrwyd y safbwynt hwn gan amryw faterion a phryderon, gan gynnwys pwysigrwydd rhoi mwy o ganllawiau manwl i'r sawl sy'n llai cyfarwydd â'r themâu a'r materion a drafodir mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

## Monitro a Fetio Adnoddau

Teimlodd rhai ymatebwyr fod adnoddau a chymorth yn werthfawr er mwyn ymgysylltu â'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gan gynnwys ei hymwreiddio yn y dysgu a'r addysgu. O'r safbwyntiau hyn, roedd y ffaith nad oedd y Cod yn ddigon penodol yn golygu bod adnoddau a chanllawiau eraill yn llawer mwy gwerthfawr. Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo y byddai hyn yn achosi heriau, yn arbennig o ran sicrhau bod y deunyddiau a'r cymorth yn addas ac effeithiol.

> *Dylid arolygu ac archwilio deunyddiau'r sawl sy'n eu cyflenwi, a rhoi bathodyn iddynt i ddangos eu bod yn addas. Dylai'r holl ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio fod ar gael i rieni/gwarcheidwaid i'w harchwilio. Dylai rhieni allu arsylwi gwersi i sicrhau bod y deunyddiau cywir yn cael eu defnyddio ac na chaiff ideolegau eu cyflwyno i'r plant sy'n andwyol i'w llesiant datblygiadol.*

Rhiant neu Ofalwr

## Cynnal Ymddiriedaeth Rhieni

Mynegodd nifer o ymatebwyr y byddai mwy o fanylion yn y Cod yn werthfawr er mwyn deall beth y gellid ei drafod gyda'r dysgwyr. Teimlwyd bod hyn yn fuddiol i ymarferwyr, a oedd yn dymuno bod ar dir cadarnach wrth gyfathrebu â rhieni a gofalwyr. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn sgyrsiau mwy agored gydag ymarferwyr ac uwch arweinwyr mewn gweithdai. Teimlodd rhai y byddai canllawiau manylach yn werthfawr wrth gynnal deialog â rhieni a gofalwyr.

Yn yr un modd, awgrymodd rhai rhieni a gofalwyr, gan gynnwys mewn gweithdai, y byddai mwy o fanylion yn werthfawr i gynnig sicrwydd iddynt, ac yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gamargraffiadau ynglŷn â'r cwricwlwm. Roedd un rhiant neu ofalwr, a oedd wedi clywed y byddai'r cwricwlwm newydd yn cyflwyno mastyrbio i ddysgwyr ysgol gynradd, yn fwy cadarnhaol tuag at y cwricwlwm newydd ar ôl derbyn esboniad byr o gynnwys ac amcanion y cwricwlwm newydd. Yn hyn o beth, mae'r ffaith nad yw'r Cod yn ddigon penodol yn caniatáu i gamargraffiadau godi ynglŷn ag union ffocws y ddarpariaeth.

*Pryd fydd y cynnwys cael ei gyhoeddi i rieni? Credaf y dylem weld yn union beth sydd yn y cynnwys.*

Rhiant neu Ofalwr

### Gwrthwynebiad Cyffredinol i'r Cod

Roedd gwrthwynebiad hefyd i natur a ffocws cyffredinol y Cod. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o faterion a phryderon, megis rhywioldeb a rhywedd.

*Canlyniad y cwricwlwm hwn fydd rhywioli plant a pheri iddynt ymwneud mwy â gweithgarwch rhywiol o oedran iau nag o'r blaen. Os ydych yn rhoi pwnc gorfodol fel ADDYSG RHYW ac yn ei gyflwyno i blant tair oed a hŷn, bydd yn dylanwadu arnynt i feddwl yn ddwys am y pwnc hwnnw.*

Rhiant neu Ofalwr

## Elfennau Coll

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd unrhyw elfennau ar goll o'r Cod.[6] Cynigiodd yr ymatebwyr gyfres o wahanol awgrymiadau, gan gynnwys pynciau penodol yr oeddent yn teimlo eu bod yn werthfawr i ddysgwyr ymwneud â hwy. Ar y cyd, roeddent yn teimlo y byddai cyfeiriadau mwy penodol at y pynciau hyn yn sicrhau eu bod yn cael sylw yn yr ystafell ddosbarth.

*Mae'r "llinynnau cyffredinol" yn eithriadol o fylchog, ac mae gwybodaeth bwysig ar goll megis:*

- *aros yn ddiogel gan gynnwys rhag meithrin perthynas anniogel*
- *aflonyddu rhywiol*
- *rhywiaeth*
- *gwahaniaethu ar sail rhyw*
- *cyffuriau anghyfreithlon a phresgripsiwn*
- *anffurfio organau cenhedlu benywod*

Llywodraethwr Ysgol

Yn ychwanegol, cyfeiriodd yr ymatebwyr at bynciau posibl eraill yr oeddent yn teimlo y dylid eu cynnwys yn y Cod.

### Cefnogaeth gan Gyfoedion

Awgrymodd rhai y gallai annog a meithrin cefnogaeth gan gyfoedion fod yn werthfawr, ac y dylid cyfeirio'n fwy penodol at hyn yn y Cod:

[6] Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno mai elfennau gorfodol o'r canllawiau (cod addysg cydberthynas a rhywioldeb) yw'r rhai cywir? A oes unrhyw beth ar goll y dylid ei gynnwys?

*Credaf fod yr hyn sydd wedi'i amlinellu'n dda, yn arbennig cynnwys cydberthnasau amrywiol. Fodd bynnag, credaf fod angen mwy ar sut i gefnogi ei gilydd. Mae sut i dderbyn cefnogaeth wedi'i gynnwys ond nid oes ffocws ar gefnogaeth gan gyfoedion. Mae hyn yn bwysig iawn am fod llawer o bobl ifanc yn cael trafferth â materion yn ymwneud â delwedd corff a bod yn gyfforddus yn eu hunaniaeth rhywedd a rhywiol, gan achosi iddynt ei chael yn anodd dweud wrth eu ffrindiau a'u cyfoedion.*

Plentyn neu berson ifanc

## Diogelwch ar-lein

Thema allweddol arall oedd pwysigrwydd sicrhau bod dysgwyr yn ddiogel ar-lein, ac y dylai hyn gael ei archwilio mewn mwy o ddyfnder yn y Cod:

*Mae'n ymddangos bod elfennau gorfodol y cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ymgorffori'r hyn sy'n angenrheidiol i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu a chyflawni pedwar diben y cwricwlwm ac adlewyrchu dull seiliedig ar hawliau a thegwch. Fodd bynnag, mae plant a phobl ifanc yng Nghymru yn tyfu i fyny mewn byd cymhleth, lle mae gwybodaeth ar gael yn hawdd ar-lein, gan beri heriau a risgiau. Byddai Llinyn 3 – Meithrin diogelwch a pharch, gwerthfawrogiad o'r person a chefnogaeth – yn elwa o fwy o bwyslais ar heriau'r byd digidol. Dylai'r ymadrodd "gan gynnwys ar-lein" gael ei gryfhau neu dylid mynd i'r afael ag ef yn fwy uniongyrchol.*

Corff Proffesiynol

## Priodas a Theulu

Roedd eraill eisiau gweld mwy ar rôl bwysig priodas a'r teulu:

*Nid ydynt yn rhoi pwyslais digonol ar werth priodas a bywyd teuluol, ynddynt eu hunain ac o ran sicrhau sylfaen gadarn i iechyd y gymdeithas yn gyffredinol. Maent hefyd yn adlewyrchu tuedd tuag at yr hyn a elwir yn amrywiaeth, ar draul safbwyntiau mwy traddodiadol ar briodas a'r teulu sydd yn dal i berthyn i ganran fawr o'r boblogaeth. Maent yn tueddu i wthio ystyriaethau moesol a rôl rhieni i'r ymylon.*

Rhiant neu Ofalwr

## Menopos

Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at ymwneud yn fwy penodol â menopos yn y Cod:

*Mae angen i ddysgu am fenopos fod yn orfodol hefyd. Gallai caniatáu i ysgolion drin ac addasu fesul ysgol unigol olygu bod rhai meysydd yn cael eu hepgor neu nad ydynt yn mynd i'r afael â hwy mewn digon o ddyfnder. Mae deall ffyrdd newydd o ddysgu yn rhoi llawer o bwyslais ar staff ysgol ond mae'n rhaid i lawer wneud hyn yn eu hamser eu hunain ac ni fydd unrhyw amser sy'n cael ei roi yn ddigon hir i fod yn drylwyr.*

Ymarferydd Ysgol Brif Ffrwd

### Diogelu

Unwaith eto, nodwyd bod diogelu'n elfen bwysig a oedd ar goll yn y Cod a'r Canllawiau yn fwy cyffredinol:

*Mae egwyddorion ac arferion diogelu, ac unrhyw gysylltiadau ag adnoddau a chanllawiau amddiffyn plant, yn llwyr absennol. Mae natur Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn aml yn arwain at ddatgeliadau. Mae'n rhaid i ysgolion fod yn barod ar gyfer hyn a chael canllawiau priodol a chynhwysfawr. Mae'n fater eithriadol o bryderus bod y wybodaeth hon wedi ymddangos mewn fersiynau blaenorol, ond mae diogelu ac amddiffyn plant wedi'i waredu bellach.*

Llywodraethwr Ysgol

## Effeithiolrwydd y Cod

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd y Cod yn cynnig gwybodaeth berthnasol i gynorthwyo ymarferwyr i ddylunio eu cwricwlwm ysgol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.[7]

### Safbwyntiau Cadarnhaol

Roedd rhai'n teimlo bod y Canllawiau a'r Cod yn ddogfennau defnyddiol a oedd o gymorth iddynt ddeall Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Cadarnhawyd hyn mewn trafodaethau mwy agored ag ymarferwyr, yn benodol y rhai sydd â mwy o brofiad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a oedd yn teimlo bod y Cod yn werthfawr a llawn gwybodaeth. O'r safbwyntiau hyn, roedd y Canllawiau a'r Cod yn effeithiol ar fynegi'r dyletswyddau statudol sydd ar leoliadau ac ysgolion, ac o ran ymgysylltu â'r cwricwlwm.

*Mae'r ddogfen hon yn ddefnyddiol i athrawon profiadol a all gymharu a chyferbynnu â Chanllawiau cwricwlwm blaenorol.*

Ymarferydd Ysgol Brif Ffrwd

[7] Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn cynnig gwybodaeth berthnasol i gefnogi ymarferwyr wrth gynllunio eu cwricwlwm ysgol addysg cydberthynas a rhywioldeb?

*Bydd angen i athrawon fod yn ymwybodol o Ganllawiau (Adran 1) a Chod (Adran 2) Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ogystal â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, ac Iechyd a Lles yn benodol. Bydd y cyfeiriadau at gynnwys, arbenigedd, ffyrdd o ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau a'r rhestr termau yn ddefnyddiol.*

Consortiwm Rhanbarthol

## Mwy o Fanylion a Chanllawiau

Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai mwy o fanylion a chanllawiau'n bwysig er mwyn deall a gweithredu ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Roedd hyn yn cynnwys oddi mewn i'r Canllawiau a'r Cod eu hunain, ond hefyd ar y cyd â deunyddiau, enghreifftiau a hyfforddiant ehangach a fydd ar gael i leoliadau ac ysgolion.

*Credaf fod yr hyn sydd yno'n glir ac wedi'i ysgrifennu'n dda. Yn bersonol, efallai y byddwn wedi mynd yn bellach ar rai o'r disgrifiadau, fel yn y tabl o flociau adeiladu.*

Ymarferydd Ysgol Brif Ffrwd

## Cymorth Ehangach

Teimlodd yr ymatebwyr hefyd y byddai cymorth ehangach, gan gynnwys oddi wrth ddarparwyr allanol, yn werthfawr. Roedd rhai'n teimlo y byddai'n bwysig gwirio cynnwys y ddarpariaeth i sicrhau ei fod yn briodol ac effeithiol:

*Rhaid i wasanaethau arbenigol gael eu cynnwys i helpu athrawon, yn ogystal â phecynnau hyfforddiant cynhwysfawr. Mae angen i chi benderfynu pwy fydd yn darparu'r cymorth hwn a sicrhau ei fod yn ddiduedd, nad yw'n seiliedig ar ideoleg a'i fod yn ffeithiol a niwtral. Rhaid i unrhyw ddarparwyr gwasanaeth fod yn ymwybodol o'r gyfraith mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010… Dylai adnoddau perthnasol, ar-lein ac wedi'u hargraffu, gael eu cynhyrchu neu dylid cyfeirio atynt i wneud gwaith yr athrawon yn haws. Ni ddylai fod yn rhaid iddynt ailddyfeisio'r olwyn. Unwaith eto, mae angen i'r adnoddau hyn fod yn ffeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn niwtral – nid yn seiliedig ar ideoleg neu gred. Mae'n rhaid eu bod yn briodol o ran oedran ac yn seiliedig ar ddiogelu plant.*

# 5 Yr Iaith Gymraeg

Gofynnodd yr ymgynghoriad i'r ymatebwyr hefyd am eu barn am y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'i effaith ar y defnydd o'r Gymraeg.[8]

## Effaith ar yr Iaith Gymraeg

### Effaith Gadarnhaol

Roedd rhai'n teimlo y byddai'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn gadarnhaol i'r iaith Gymraeg. Roedd hyn yn tueddu i fod yn seiliedig ar bwysigrwydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg gyflawn:

> *Effeithio yn gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg - gan roi gwerth ar ddysgu yn eich mam iaith.*

Sefydliad Sector Cyhoeddus

> *Wrth ddatblygu eich holl darpariaeth addysg yn y 2 iaith mae hyn yn rhoi cydbwysau a chyd werth i'r 2 iaith.*

Ymarferydd Ysgol Brif Ffrwd

### Dim Effaith

Roedd rhai'n teimlo na fyddai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael effaith ddirnadwy ar yr iaith Gymraeg:

> *Ni chredaf y byddai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael effaith ar yr Iaith Gymraeg y naill ffordd na'r llall cyhyd â bod y deunyddiau'n cael eu cynhyrchu'n gydradd ar gyfer lleoliadau addysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg*.

Ymarferydd Ysgol Brif Ffrwd

[8] Cwestiwn 8: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau statudol drafft ar addysg cydberthynas a rhywioldeb yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar: i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

### Effaith Negyddol ar yr Iaith Gymraeg

Roedd eraill, fodd bynnag, yn teimlo y byddai'n cael effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg. Roedd y safbwyntiau hyn hefyd yn tueddu i leisio gwrthwynebiad cyffredinol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. O'r safbwyntiau hyn, gallai cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb danseilio hyder ac ymgysylltiad â darpariaeth yn gyffredinol, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn benodol.

> *Bydd rhai rhieni nad ydynt yn teimlo'n ddiogel mewn ysgolion Cymraeg o ganlyniad i'r cwricwlwm gwleidyddol hwn yn dewis peidio ag anfon eu plant yno. Felly ni fyddant yn dysgu Cymraeg oni bai ei bod eisoes yn y cartref. Mae i'r trwythiad hwn o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb orfodol y potensial i ddieithrio plant a'u teuluoedd o ysgolion, cymunedau a'r iaith Gymraeg. Mae'r perygl o wrthdaro â rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid pryderus yn sylweddol.*

Rhiant neu Ofalwr

## Cyfleoedd i Ddefnyddio'r Gymraeg

### Dim Rhwystrau i Ddarpariaeth Ddwyieithog

Nododd rhai ymatebwyr, cyhyd â bod deunyddiau dwyieithog yn cael eu darparu i ysgolion, ni ddylai fod rhwystrau i ddarpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ddwyieithog neu gyfrwng Cymraeg effeithiol:

> *Ni welaf unrhyw reswm pam na ellid addysgu'r cwricwlwm hwn yn Gymraeg, Saesneg a dwyieithog fel sy'n briodol i anghenion y plentyn ac amgylchiadau'r ysgol.*

Ymarferydd Ysgol Brif Ffrwd

### Pwysigrwydd Adnoddau a Chymorth Cyfrwng Cymraeg

Cyfeiriodd eraill at bwysigrwydd darparu adnoddau a chymorth cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau, adnoddau a hyfforddiant i sicrhau y gall ymarferwyr ymgysylltu'n effeithiol â'r cwricwlwm yn Gymraeg.

> *Mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol a darparwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n hyfedr yn y Gymraeg o ogledd a de Cymru yn cael eu defnyddio ac yr ymgynghorir â hwy er mwyn osgoi unrhyw effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.*

Ymarferydd Ysgol Brif Ffrwd

*Mae athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gorfod cyfieithu adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i'r Gymraeg o hyd. I osgoi effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg, rhaid i'r holl adnoddau perthnasol fod ar gael yn ddwyieithog. Y mae'n hollbwysig bod darparwyr hyfforddiant a datblygwyr adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n hyfedr yn y Gymraeg yn cael eu cynnwys o'r cychwyn cyntaf i osgoi unrhyw effaith negyddol.  Dylai tafodieithoedd gogledd a de Cymru hefyd fod yn ystyriaeth i sicrhau bod yr adnoddau'n addas i bob ysgol yng Nghymru ac osgoi unrhyw effeithiau negyddol ar eu defnydd.*

Ymarferydd Ysgol Brif Ffrwd

*Sicrhau bod yr holl adnoddau perthnasol ar gael yn ddwyieithog. Sicrhau bod darparwyr hyfforddiant Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n hyfedr yn y Gymraeg yn cael eu defnyddio i hyfforddi staff ysgol. Sicrhau bod datblygwyr adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n hyfedr yn y Gymraeg yn cael eu defnyddio wrth ddatblygu unrhyw adnoddau. Sicrhau bod tafodieithoedd gogledd a de Cymru yn cael eu hystyried wrth ddatblygu adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn sicrhau eu bod yn addas i bob ysgol yng Nghymru.*

Ymarferydd Ysgol Brif Ffrwd

## Heriau Ynghylch Cyfieithu

Cyfeiriodd eraill at heriau ynghylch cyfieithu syniadau a chysyniadau cymhleth sydd wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i'r Gymraeg. Roedd y safbwyntiau hyn yn tueddu i gael eu mynegi gan rai a oedd yn gwrthwynebu'r ffocws ymddangosiadol ar rywedd a hunaniaeth yn y cwricwlwm newydd:

*Mae ansawdd y cyfieithu ar draws ieithoedd yn bwysig iawn er mwyn datblygu dealltwriaeth o syniadau cymhleth. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd byw sy'n cael eu camddefnyddio'n ideolegol yn y cyd-destun hwn lle caiff delfrydau crefyddol a chymdeithasol eu defnyddio i wrthod ffeithiau gwyddonol. Ni ddylid rhoi'r cyfle i grefydd ddiystyru rhyddid cymdeithas fodern. Ni ddylid defnyddio addysg bersonol a chymdeithasol i wrthod plant y mae angen amser arnynt i addasu er mwyn dysgu syniadau newydd a'u hintegreiddio i'w cydberthnasau cymdeithasol yn ddiogel.*

Rhiant neu Ofalwr

# 6 Casgliadau

Yn gyffredinol, roedd y Canllawiau a’r Cod yn cael eu hystyried yn werthfawr. Fodd bynnag, roedd mwy o fanylder yn cael ei ystyried yn hanfodol i sicrhau bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei hymwreiddio’n effeithiol mewn lleoliadau ac ysgolion ledled Cymru. Roedd cyfres o bryderon yn sail i’r safbwyntiau hyn, gan gynnwys o ran cynorthwyo ymarferwyr i sicrhau darpariaeth sydd bob amser yn ddatblygiadol briodol, ac o ran cynnal ymddiriedaeth a chefnogaeth rhieni a gofalwyr.

Ar draws ymatebion gan athrawon, ymarferwyr neu uwch arweinwyr, mewn cyflwyniadau ar-lein ac mewn grwpiau ffocws, roedd cefnogaeth gyffredinol i ddull gweithredu cyffredinol y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Roedd hyn yn cynnwys y pwysigrwydd a roddir yn y Canllawiau ar hawliau’r plentyn, a’r dull ysgol gyfan y mae’n ei arddel. Roedd cytundeb cyffredinol hefyd ynglŷn ag un o seiliau rhesymegol allweddol y diwygiadau, sef pwysigrwydd diweddaru ac adnewyddu’r dysgu ac addysgu ynghylch rhyw a chydberthnasau. Roedd hyn yn cydnabod pwysigrwydd cynorthwyo plant a phobl ifanc i lywio drwy fywyd cymdeithasol cyfoes yn hyderus a diogel.

Roedd gwrthwynebiadau i ddull gweithredu cyffredinol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i’w gweld ymhlith yr ymatebion. Roedd llawer o’r ymatebion wedi’u llywio’n amlwg ac yn ddealledig gan safbwyntiau a priori, moesol neu grefyddol ehangach a dwfn, neu bryderon penodol ynghylch lles. Roedd y rhain yn aml yn deillio o ddehongliad a chanfyddiad yr ymatebwyr o gynnwys ac amcanion cyffredinol cwricwlwm newydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Roedd safbwyntiau mwy beirniadol a fynegwyd yn yr ymgynghoriad yn tueddu i beidio â thrafod y Canllawiau a’r Cod eu hunain, gan wrthwynebu’r dull gweithredu yn ei gyfanrwydd. Yn lle hynny, cynigiodd llawer amrywiaeth o bryderon. Er bod y safbwyntiau negyddol yn wahanol o ran eu tarddiad neu’u cyfeiriad penodol, roeddent yn tueddu i gysylltu’n ôl â dau faes trosfwaol o bryder:

- Bod y dull gweithredu arfaethedig yn amhriodol i ddysgwyr, yn arbennig i blant iau. O’r safbwyntiau hyn, cyfeiriodd yr ymatebwyr yn aml at y diffyg cyswllt rhwng gwerthoedd rhieni a gofalwyr a dealltwriaeth ymddangosiadol o gynnwys a ffocws Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yn arbennig ynghylch cyfeiriadedd rhywiol.

- Thema allweddol arall oedd y canfyddiad o ffocws ar rywedd a hunaniaeth yn y cwricwlwm, a oedd yn cael ei ystyried yn broblematig. Yn y safbwyntiau hyn, yr oedd y canfyddiad o droi oddi wrth addysgu rhywedd ar sail ‘ffeithiol’ a biolegol, tuag at ddehongliadau perthynolaidd sy’n derbyn a thrwy hynny’n annog gwahaniaeth.

Roedd rhai safbwyntiau negyddol yn seiliedig ar gamargraffiadau ar amcanion a chynnwys y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ynglŷn â beth yn benodol fyddai’n cael ei drafod gyda dysgwyr iau. Yn yr ymatebion, roedd yn amlwg bod canfyddiad y byddai dysgwyr iau yn derbyn cynnwys rhywiol penodol o ganlyniad i’r cwricwlwm newydd, er enghraifft. Roedd y camargraffiadau hefyd yn cwmpasu’r argymhelliad o ddarpariaeth sy’n briodol i’r oedran, lle nad oedd canfyddiadau’r ymatebydd o beth roedd hynny’n ei olygu yn ymarferol yn adlewyrchu’r Canllawiau na chyfeiriad cyffredinol y cwricwlwm newydd.

Ar draws yr holl ymatebion, roedd yn amlwg bod llesiant y dysgwyr yn bwysig. Roedd y safbwyntiau cadarnhaol a negyddol ar y cwricwlwm newydd yn dymuno hybu a diogelu llesiant dysgwyr. Gallai cynnwys mwy o fanylder a dyfnder yn y Canllawiau a’r Cod helpu i fynd i’r afael â rhai o’r pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr.

wavehill™

social and economic research

ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711

wavehill@wavehill.com

wavehill.com